clybiau i bobl ifanc - cymru
clubs for young people wales

LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

Rhif Elusen Gofrestredig: 1009142

# Llinell Amser 28-08

## Hanes Mudiad y Clybiau Bechgyn yng Nghymru





BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Y Blynyddoedd Cynnar | 4 |
| Ffurfio a Datblygu'r Mudiad | 5 |
| Swyddogion y Mudiad 1928-2008 | 10 |
| Aelodaeth | 11 |
| Pentref Bechgyn Sain Tathan | 12 |
| Canolfan Chwaraeon Awyr Agored Abercraf | 16 |
| Hanes ar Waith | 17 |
| CPI Cymru Heddiw a'r Dyfodol | 51 |


## Diolchiadau


Cydnabyddwn help a chefnogaeth y canlynol:

• Rhaglen 'Gwreiddiau Ifanc' Cronfa Dreftadaeth y Loteri.

• Y bobl ifanc sydd wedi gweithio ar gyhoeddi'r llyfr hwn.

• Yr unigolion niferus hynny sydd wedi treulio amser i gyfrannu tuag at y llyfr hwn.



Clybiau Pobl Ifanc Cymru

(Pencadlys)
Canolfan Busnes Western
Riverside Terrace
Pont Elái
Caerdydd
CF5 5AS
Ffôn: 029 2057 5705
Ffacs: 029 2057 5715
E-bost: office@cypwales.org.uk

(Swyddfa Gogledd Cymru)
Tŷ Derwen
Groes Lwyd
Abergele
Conwy
LL22 7SU
Ffôn: 01745 828470
Ffacs: 01745 828471
E-bost:nwoffice@cypwales.org.uk

www.cypwales.org.uk

# Cyflwyniad

Mae tymor i bob llywodraeth yn ei thro, cynigir polisïau newydd, mae Gweinidogion yn sôn am eu hawydd i ddatrys y 'problemau' sy'n wynebu pobl ifanc o ddegawd i ddegawd. Yn y cyfamser mae Clybiau Pobl Ifanc Cymru'n parhau i gynnig ei raglen yng Nghymru heb ots am y blaid sy'n ennill yr etholiad na'r gwahanol fathau o argyfwng sy'n taro'r wlad. Ar wahân i newid ei enw o bryd i'w gilydd mae CPI Cymru'n dal i sefyll yn falch fel un o'r mudiadau ieuenctid gwirfoddol mwyaf yn y Dywysogaeth.

Gobeithio y bydd darllen y cyhoeddiad hwn yn eich gwneud yn fwy ymwybodol o'r llwybr y mae'r Mudiad wedi'i ddilyn ers iddo gychwyn yn y 1920au a hyd heddiw.

Mae'r Mudiad yn ddyledus am ei lansio i'r perchennog pyllau glo a'r dyngarwr, David Davies, yr Arglwydd Davies o Landinam wedi hynny, a oedd yn Gadeirydd ar gwmni glo mawreddog Ocean. Ffurfiwyd clybiau i ddifyrru'r bechgyn ifanc a weithiai yn y glofeydd yn ystod eu horiau hamdden. Bu'r rhaglenni blynyddol yn fodd i gynnig profiadau a chyfleoedd newydd gan gadw'#r un pryd at y gweithgareddau traddodiadol a oedd yn boblogaidd ymhlith yr aelodau ifanc, ac mae hynny'n wir hyd y dydd hwn.

Mae'r Mudiad wedi mor ffodus â denu miloedd lawer o oedolion i wirfoddoli drosto trwy gydol y pedwar ugain mlynedd sydd wedi cefnogi degau o filoedd o bobl ifanc i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau a gynigir gan CPI Cymru o genhedlaeth i genhedlaeth.

Mae'n fraint ac yn anrhydedd cael bod yn Gadeirydd ar fudiad i bobl ifanc sydd wedi llwyddo i gynorthwyo cynifer o bobl ifanc trwy gyfnodau anodd yn aml wrth iddynt groesi o ieuenctid i ddatblygu'n ddynion a menywod ifanc. Mae llawer wedi ennill clod cenedlaethol ond mae pob un wedi mwynhau cymryd rhan a bod yn aelodau un o'r mudiadau ieuenctid mwyaf blaenllaw yng Nghymru.



Cenydd Thomas MBE, QPM
Cadeirydd 2002 – Heddiw (2009)



*1922*
*Agor y clybiau bechgyn cyntaf yn Nhreharris, Ton Pentre, Treorci, Nant-y-moel, Wattstown a Nine Mile Point.*

# Y Blynyddoedd Cynnar

Sefydlwyd y Mudiad gan y Capten J Glynn-Jones a David Davies, yr Arglwydd Davies o Landinam wedi hynny – sef dau ffrind da a wnaeth gyfraniad o bwys tuag at gychwyn y Mudiad Clybiau Bechgyn yng Nghymru ar ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ar unwaith, wynebai'r Capten Glynn, a benodwyd yn Swyddog Lles i Lofeydd yr Ocean ym meysydd glo'r de, broblemau'n gysylltiedig â llanciau a weithiai fel glowyr. Yn 1922, daeth Mudiadau Lles y Glowyr â Grŵp Glofeydd yr Ocean, y Glofeydd Cenedlaethol Unedig a sawl cwmni glo arall i'r casgliad na fyddai cynlluniau lles yn cael llawer o effaith ar y llanciau hyn oni bai fod Clybiau Bechgyn a allai ennyn eu diddordeb.

Yn 1922 agorwyd y Clwb Bechgyn cyntaf yn Nhreharris, ac yn ei sgil sefydlwyd Clybiau Bechgyn eraill yn Nantymoel, Ton Pentre a'r Gelli, Treorci, Wattstown a Nine Mile Point.



*Y Capten J. Glynn-Jones*



*Clwb Bechgyn Treharris*

Arweinid y rhain gan weithwyr ieuenctid amser llawn ar raddfa heb ddim yn debyg iddi yn unman arall ym Mhrydain, hyd yn oed yn ystod dirwasgiad economaidd. Roedd y Capten Glynn am i bob bachgen fod yn aelod o glwb a fyddai'n cynnig ymarfer corff iach, gweithgareddau diwylliannol a disgyblaeth. Credai hefyd fod ar y bechgyn gyfrifoldeb i'r gymuned yr oeddynt yn aelodau ohoni.

Daeth i sylweddoli'n fuan ei bod yn hanfodol cael mwy o undod rhwng y clybiau a bod llawer o fanteision i hynny, yn enwedig rhannu syniadau a thrafod a datrys problemau.

Yn 1923, arweiniodd y Capten Glynn-Jones a'r Arglwydd Davies griw o fechgyn o ardal maes glo'r Ocean i wersyll a drefnwyd bob blwyddyn gan Ddug Caer Efrog. Canlyniad yr ymweliad hwn oedd y syniad o gynnal gwersyll tebyg yn ne Cymru, ac yn 1925 agorwyd Gwersyll Bechgyn Sain Tathan.

Ym mis Awst 1928 cynhaliwyd cynhadledd o Arweinwyr. Aelodau Pwyllgorau Gwaith ac Ysgrifenyddion Clybiau'r Bechgyn yng Ngwersyll Bechgyn Sain Tathan a arweiniodd at sefydlu Ffederasiwn Clybiau Bechgyn De Cymru y flwyddyn honno.

*1928*
*Ffurfio Ffederasiwn Clybiau Bechgyn De Cymru.*

*1935*
*Adeiladu Capel Gwersyll Sain Tathan gan lowyr di-waith.*

# Ffurfio a Datblygu'r Mudiad 1928 – 2008

Blwyddyn nodedig yn hanes y Mudiad oedd 1928. Ym mis Chwefror y flwyddyn honno treuliodd arweinwyr y clybiau a oedd eisoes yn bod bedwar diwrnod ar daith addysgol trwy rai o'r clybiau bechgyn gorau yn Llundain. Yn haf y flwyddyn honno mewn cynhadledd dros y Sul yn Sain Tathan gydag arweinwyr, ysgrifenyddion ac aelodau chwech o glybiau bechgyn – Treharris, Ton Pentre, Treorci, Nantymoel, Wattstown, Nine Mile Point Cwmfelinfach (enw'n deillio o'i bellter o Ddociau Casnewydd), penderfynwyd ffurfio Ffederasiwn Clybiau Bechgyn Glowyr De Cymru dan lywyddiaeth Iarll Plymouth. Codwyd pryderon yn y gynhadledd fod cyrff allanol, megis sefydliadau crefyddol ac ysgolion, yn tueddu i ystyried y clybiau fel dylanwad negyddol ar eu gwaith. Credai eraill fod datblygiad y clybiau hyn, yn ei hanfod, yn fater i'r glowyr.



*Y Gynhadledd Gyntaf 1928*

Yn 1936/37 bu cyfnod o ddatganoli. Yn lle cael staff canolog mawr sefydlwyd system lle gweithiai'r arweinwyr mewn clybiau strategol, a phob un yn gyfrifol am un clwb mawr a chybiau cyfagos o fewn ardal benodol. Sefydlwyd deuddeg grŵp fel hyn yn Ardal Arbennig De Cymru.

Tua diwedd y degawd roedd agwedd y cyhoedd tuag at y clybiau wedi gwella ac roedd y Ffederasiwn wedi ymsefydlu fel gwasanaeth cymdeithasol sylfaenol a hanfodol. Gwelwyd twf y Ffederasiwn fel un o nodweddion mwyaf clodwiw bywyd de Cymru ar y pryd. Soniai awdurdodau addysg lleol am ganolfannau ieuenctid i 'gadw bechgyn rhag crwydro'r strydoedd' a 'bod angen dawnsfeydd rhag ofn i'r bechgyn fynd i ddrygioni'. Dywedwyd y 'gall bechgyn ifanc wynebu newidiadau yn y blynyddoedd sydd i ddod ac y bydd angen eu delfrydau i adfer y byd yn sgil yr heddwch'. 'Dyma'r ddynoliaeth yn aros ei thro a dylai ein dynion ifanc gael eu hyfforddi mewn Clwb Bechgyn o'r iawn ryw ac nid mewn neuadd ddawns'!!




*1929 – Clwb Bechgyn Treorci*

*1939 – 1945*
*Blynyddoedd y Rhyfel.*

1940au – Dywed Adroddiad Blynyddol 1940/41 fod 'ein Ffederasiwn ein hunain wedi gwneud cryn gyfraniad tuag at yr ymdrech genedlaethol ar ran ei phobl ifanc. Mae'r Ffederasiwn wedi gallu cynnal a hyd yn oed estyn ei waith trwyddo – cyflwr boddhaol mewn amgylchiadau sy'n deillio o'r terfysg emosiynol a chymdeithasol mwyaf yn hanes y wlad'.

Gwasanaethai rhai miloedd o fechgyn o'r clybiau yn y Lluoedd Arfog a chwaraeai'r aelodau iau eu rhan hefyd. Cafwyd adroddiad bod nifer o fechgyn a weithiai fel negeswyr wedi cael eu lladd wrth eu dyletswyddau.

Trwy gydol y rhyfel, er bod yr adeiladau'n anaddas ac yn amhosibl eu defnyddio mewn rhai achosion, ac er gwaethaf colli arweinwyr oherwydd y drin, parhâi'r Ffederasiwn i gynnig lle i fechgyn 'lle y gallant ddod o hyd i gyfeillgarwch, hamdden iach a chyfle i fwynhau ystafell dawel'.



*1932 – Dug Caerefrog yn gosod torch yng ngwasanaeth coffa Gwersyll Sain Tathan.*

*Daw'r darn a ganlyn o Adroddiad Blynyddol 1944/45:*

*Mae hyn fel y dylai fod oherwydd yn 1944-45 roedd nid yn unig yn sicr y byddai dyn yn cael ei lywodraethu gan ddrygioni ond ei fod hefyd trwy ei ymdrech ei hun yn cael cyfle newydd a gwell i berffeithio'i ryddid. Cadwyd egwyddor rhyddid yr unigolyn ond bu'r gost o ran hapusrwydd dynol yn erchyll. "Ni cheir cariad gwell na hyn" – ac mae'r aberth wedi bod. Mae gofid yn aros ond nid gofid yn unig gan fod balchder ynghlwm wrtho – balchder yn y darganfyddiad bod rhyddid yn bosibl oherwydd fy mab, fy merch neu oherwydd fy mrawd. Ond nid yw gofid a balchder yn ddigon oherwydd mae'r ddau'n perthyn i'r gorffennol; ofer yw aberth onid yw'n dwyn i fod dyfodol i'r rhai a gedwir ganddo. Roedd eu haberth yn ogoneddus; ein gwaith ni yw ei wneud yn achos gogoniannau cyffelyb. Mae buddugoliaeth yn achos dathlu; mae hefyd yn bryd inni ymdrechu o'r newydd.*

*Rydym ni sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn wynebu cyfleoedd mawr a chyfrifoldebau anferth. Ni welwn rai wynebau eto - wynebau a gofiwn mor dda, o ddifrif yn y llyfrgell, yn eiddgar ar y cael pêl-droed ac yn llawen yn y gwersyll. Y bachgen bach hwnnw yn dal ei geiniog ac yn hanner ofni siom, sy'n gofyn "Plis, ga i ymuno â'r Clwb?" a welwyd am y tro olaf fel milwr yr un mor eiddgar a'r un mor ddiniwed. Yr hyn a ddywedodd oedd "Arhoswch imi ddod yn ôl!".*

*Sentiment? Nage – realaeth. Oherwydd yr oedd wedi gweld yn gliriach hyd yn oed na'r bobl a sefydlodd ei Glwb beth oedd ei wir bwrpas, ei wir werth. Nid yw'r Clwb yn ceisio hyfforddi'r unigolyn; yn hytrach mae'n ei annog i'w fynegi ei hun ac yn rhoi cyfle iddo ysgwyddo cyfrifoldeb. Ac yn y ddau beth hyn y ceir gwir ryddid - datgelu pwrpas mewnol, ewyllys a'r gallu i'w gyflawni. Ni ellir gorfodi'r naill na'r llall, ond gellir eu hannog.*

*Mae aelodau'r Clwb wedi cyfrannu at lwyddiant ein hymdrechion milwrol ; maent wedi cyfrannu'n werthfawr trwy eu ffitrwydd a'u cyflwr effro ; maent wedi bod o gymorth hefyd oherwydd eu profiad o gelfyddyd cydweithio a'u hymdeimlad o gydbwysedd rhwng cyfrifoldeb yr unigolyn a chydgyfrifoldeb y grŵp.*

Er gwaethaf y rhyfel, lleihad difrifol o ran cymorth ariannol allanol, a cholli trefnwyr ieuenctid yn llwyr o'r mannau addysgol, nid oedd lleihad o bwys yn nifer y clybiau. Yn ffodus, hefyd, daeth gwasanaeth ieuenctid y Weinyddiaeth Addysg i'r adwy i ryw raddau o ran llenwi bylchau, ar adeg gyfleus.

Ar 31 Mai 1947, yn dilyn trafodaethau gyda Chymdeithas Genedlaethol y Clybiau Bechgyn, estynnodd y ffederasiwn ei ddalgylch i Gymru gyfan, a newid ei enw i Gymdeithas Clybiau Bechgyn Cymru. Yn sgil ad-drefnu trwyadl ar gysylltiadau ac amodau aelodaeth, lleihawyd nifer y clybiau cysylltiedig i 107, a'r rhan fwyaf ohonynt yn yr ardaloedd glofaol.

Yn y 50au a'r 60au parhaodd y Mudiad i ffynnu a bu lefelau uwch o fechgyn yn cymryd rhan yn y rhaglen lawn o weithgareddau. Yn eu plith caed chwaraeon, hyfforddiant, gweithgareddau cymdeithasol, celf a chrefft a chyfnodau preswyl. Roedd Pentref y Bechgyn yn ei flodau a'r rhan fwyaf o'r bobl ifanc a oedd yn ei fynychu'n dod o blith aelodau'r Clwb Bechgyn. Yn ystod y cyfnod hwn daliodd clybiau ar y cyfleoedd newydd a chyffrous a gynigid yn y ganolfan, a bu bechgyn yn mynychu gwyliau gweithgareddau yno am wythnos ar y tro. Manteisiodd y diwydiannau gwladol a busnesau preifat ar y cyfleoedd niferus ac adeiladol hyn a gynigid yn Sain Tathan a threfnwyd cyrsiau hyfforddi a gweithgareddau penodol i ateb eu hanghenion.

Yn anffodus, yn y 70au, lleihaodd poblogrwydd Pentref y bechgyn a'r Ganolfan Antur yn Abercraf ill dau, yn bennaf oherwydd dyfodiad gwyliau pecyn i deuluoedd mewn gwledydd tramor. I bob pwrpas, nid oedd gwyliau yn Sain Tathan nac Abercraf yr un mor atyniadol ag wythnos o wyliau ar y Costa Brava a thueddai'r clybiau i ddefnyddio'r canolfannau dros y Sul yn unig. Wrth golli refeniw yn y ddwy ganolfan, gwelwyd edwiniad mudiad Clybiau Bechgyn Cymru ac yn 1990 oherwydd cyni ariannol difrifol, gorfodwyd y Mudiad a'i ganolfannau i gau.



*1979 - Tae Kwon Do ym Mhentref Bechgyn Sain Tathan*

*1953*
*Syr Maynard Jenour TD, JP, DLn yn dod yn Llywydd y Gymdeithas.*

*1958*
*Agor Canolfan Awyr Agored Abercraf.*

Dyddiadau nodedig yn ystod y degawdau hyn:

| | |
|---|---|
| 1953 | Syr Maynard Jenour TD, JP, DL yn Llywydd y Gymdeithas. |
| 1958 | Agor Canolfan Antur Abercraf. |
| 1960 | Ailenwi Gwersyll Bechgyn Sain Tathan yn Bentref Bechgyn Sain Tathan. |
| 1960 | Newid enw'r Gymdeithas i Glybiau Bechgyn Cymru. |
| 1962 | Ailagor Pentref y Bechgyn gan y Frenhines Elizabeth, Y Fam Frenhines. |
| 1968 | Ymweliad â Phentref y Bechgyn gan Ddug Caeredin. |
| 1976 | Pencadlys CBC yn symud o'r Stryd Fawr yng Nghaerdydd i bentref Bentref Bechgyn Sain Tathan. |
| 1978 | Agor Tŷ'r Capten Glynn-Jones ym Mhentref y Bechgyn gan Dr Peter Glynn-Jones er cof am y capten J Glynn-Jones OBE, MC, sylfaenydd Clybiau Bechgyn Cymru. |
| 1979 | Agor Canolfan Astudiaethau Maes yn Abercraf gan Dywysog Cymru. |
| 1982 | Codi Bloc Cynadledda 56 ystafell wely ym Mhentref y Bechgyn gan Wyn Roberts AS, Is-ysgrifennydd Gwladol yn y swyddfa Gymreig. |
| 1984 | Prynu Pentref y Bechgyn gan Sefydliad Lles Cymdeithasol y Diwydiannau Glo. |
| 1986 | Ymweliad â Phentref y Bechgyn gan Ddug Caerloyw ac yn ystod prynhawn ei ymweliad agorodd ei Uchelder Brenhinol Glwb Bechgyn Georgetown, clwb a godwyd yn unswydd ym Merthyr. Aeth ymlaen i ymweld â Chlybiau Bechgyn Troedyrhiw, Treharris, Nelson ac Ystrad Mynach. |
| 1986 | Chwaraeodd CBC ran flaenllaw mewn gwaith gyda phobl ifanc ddi-waith fel Asiant Rheoli dros y Cynllun Hyfforddi Ieuenctid, y Rhaglen Prosiectau gwirfoddol a'r Rhaglen Hunanddatblygu. |
| 1987 | Sefydlu Paneli Cried ac Athletau a Rhedeg Traws Gwlad. |
| 1988 | Dathlu Jiwbilî Diemwnt Clybiau Bechgyn Cymru. |
| 1990 | Oherwydd cyni ariannol eithriadol, gorfodwyd Clybiau Bechgyn Cymru a'i ganolfannau i gau. |

Yn 1991 ffurfiwyd Ffederasiwn Clybiau Bechgyn a Merched Cymru, er mwyn cynnwys merched yn ffurfiol (er bod merched yn chwarae rhan mewn nifer mawr o glybiau). Agorwyd y Pencadlys yn Ysgol Headlands, Penarth.

Datblygodd y Mudiad i fod yn un o'r sefydliadau ieuenctid gwirfoddol mwyaf blaenllaw yng Nghymru, yn cynnig cyfleoedd newydd i bobl ifanc trwy raglen amrywiol o weithgareddau addysgol, cymdeithasol diwylliannol a hamdden.

Dyddiadau nodedig yn hanes y Mudiad newydd:

| | |
|---|---|
| 1992 | Sefydlu'r Mudiad newydd fel elusen gofrestredig. |
| 1992 | Daeth Stanley Thomas yn Llywydd y Mudiad yn sgil marw Syr Maynard Jenour, a ddioddefai gan afiechyd ers rhai blynyddoedd. |
| 1993 | Sefydlu Pencadlys newydd yng Nghanolfan Busnes Western, Trelái, Caerdydd. |
| 1993 | Newidiodd y Mudiad ei enw i Ffederasiwn Clybiau Bechgyn a Merched Cymru. |
| 1994 | Cyflwyno Pêl-droed Merched. |
| 1995 | Ymweliad gan Ddug Caerloyw â Chyfeillion Ifanc yr Anabl Abertawe, a chlybiau Baglan, Wyndham, Nelson a Radyr. |
| 1995 | Her y Llywydd – Taith Gerdded Cambria (274 milltir). |
| 1996 | Cynnal peilot Prosiect Gogledd Cymru. |
| 1996 | Her y Llywydd – Taith Gerdded o Brestatyn i Barc yr Arfau. |
| 1996 | Ffurfio Cyngor Ieuenctid y Genhedlaeth Nesaf. |
| 1997 | Cynnal Diwrnod Iechyd Da (ymgyrch hybu bywyd iach) yn Arena Ryngwladol Caerdydd - mynychwyd gan 700 o bobl a dyfarnwyd y Brif Wobr Ragoriaeth mewn Gwaith Ieuenctid i'r Mudiad gan Gyngor Ieuenctid Cymru. |
| 1998 | Newidiodd y Mudiad ei enw i Glybiau bechgyn a Merched Cymru. |
| 1999 | Agor swyddfa Gogledd Cymru. |
| 1999 | Cynnal Twrnamaint Pêl-droed y Pedair Gwlad ym Merthyr Tudful. |
| 2000 | Gêm pêl-droed ryngwladol gyntaf y merched yn erbyn Ysgolion Awstralia. |
| 2000 | Prosiect y Mileniwm – Ffenestr ar Gymru - taith gerdded 7 wythnos a 700 milltir o gwmpas ffin Cymru. |
| 2003 | Croesawu Twrnamaint Pêl-droed y Pedair Gwlad i ogledd Cymru. |
| 2003 | Ymweliad gan Ddug Caerloyw â Gwarchodwyr Bae Langland a chwrdd wedyn â phobl ifanc tîm pêl-rwyd Treforys, Llanelli Reds a chlwb criced y Mwmbwls. |
| 2003 | Enillodd Grŵp Abertawe Gwpan Pêl-droed Genedlaethol Gillette – a gyflwynwyd gan Ddug Caerloyw. |
| 2004 | Taith Gyfnewid gyntaf gyda sefydliad chwaraeon, TSV Eltingen, Stuttgart, yr Almaen (sy'n parhau bob blwyddyn). |
| 2006 | Y Mudiad yn newid ei enw i Glybiau Pobl Ifanc Cymru. |
| 2007 | CPI Cymru'n ennill Gwobr Buddsoddwyr mewn Pobl YP. |
| 2008 | Pen-blwydd y Mudiad yn 80 oed. |

# Swyddogion y Mudiad 1928 – 2008

| | Llywydd | Cadeirydd | Ysgrifennydd / Prif Weithredwr |
|---|---|---|---|
| 1928 | Finlay Gibson<br>Oliver Harris | M J John MBE | Y Capten J Glynn-Jones MC |
| 1935/36 | Iarll Plymouth | M J John MBE | Y Capten J Glynn-Jones MC |
| 1938/39 | Iarll Plymouth | M J John MBE | G B Bradney |
| 1939/40 | Iarll Plymouth | Syr Herbert Miles MBE YH | G B Bradney |
| 1944/45 | D M Evans-Bevan | Syr Herbert Miles MBE YH | T G Jeffreys-Jones MSc |
| 1947 | D M Evans-Bevan | Syr Herbert Miles MBE YH | Bryn James (Gweithredol) |
| 1948/53 | D M Evans-Bevan | Syr Herbert Miles MBE YH | T Chapman |
| 1953 | Syr Maynard Jenour TD, JP, DL | J R Morgan | T Chapman |
| 1954 | Syr Maynard Jenour TD, JP, DL | J R Morgan | Y Capten J Glynn-Jones OBE, MC |
| 1965 | Syr Maynard Jenour TD, JP, DL | J R Morgan | Y Capten J Glynn-Jones OBE, MC (to 31.3.65)<br>Geoffrey Spencer (o 1.4.65) |
| 1965/66 | Syr Maynard Jenour TD, JP, DL | D E J Davies BA, LLB | George Stokes |
| 1966/67 | Syr Maynard Jenour TD, JP, DL | D E J Davies BA, LLB | George Stokes MBE |
| 1969/70 | Syr Maynard Jenour TD, JP, DL | D E J Davies BA, LLB | Clive Thomas |
| 1977 | Syr Maynard Jenour TD, JP, DL | D E J Davies BA, LLB | Hugh Poyntz MBE, MBIM |
| 1978/79 | Syr Maynard Jenour TD, JP, DL | H G Lewis (o Oct 79 i 1991) | Alwyn Morgan |
| 1991 | Stanley Thomas | Len Carroll | David Allen-Oliver |
| 1993 | Stanley Thomas OBE | Len Carroll | David Allen-Oliver |
| 1995 | Stanley Thomas OBE | Len Carroll | David Evans |
| 1998 | Stanley Thomas OBE | Len Carroll MBE | David Evans |
| 2002 | Stanley Thomas OBE | Cenydd Thomas MBE, QPM | David Evans |
| 2006 | Syr Stanley Thomas OBE | Cenydd Thomas MBE, QPM | David Evans |
| 2008 | Syr Stanley Thomas OBE | Cenydd Thomas MBE, QPM | David Evans |
| 2008 | Syr Stanley Thomas OBE | Cenydd Thomas MBE, QPM | Joff Carroll (Gweithredol) |

# Aelodaeth

| Dyddiad | Clybiau | |
|---|---|---|
| 1928 | 6 | Treharris, Ton Pentre, Treorci, Nantymoel, Wattstown, Nine Mile Point |
| 1930 | 6 | Treharris, Ton Pentre, Treorci, Nantymoel, Wattstown, Nine Mile Point |
| 1931 | 7 | Treharris, Ton Pentre, Treorci, Nantymoel, Wattstown, Trecelyn, Llwynypia |

| Dyddiad | Clybiau/ Aelodaeth | Dyddiad | Clybiau/ Aelodaeth | Dyddiad | Clybiau/ Aelodaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| 1932 | 17 | 1967 | 115 *6849* | 1988 | 98 *8650* |
| 1933 | 29 | 1968 | 109 *6043* | 1989 | 99 *8760* |
| 1934 | 34 | 1969 | 104 *8112* | 1992 | 83 *8200* |
| 1935 | 31 | 1970 | 86 *5728* | 1993 | 84 *8350* |
| 1936 | 51 | 1971 | 97 *5789* | 1994 | 85 *8420* |
| 1937 | 54 | 1972 | 101 *8641* | 1995 | 101 *9600* |
| 1938 | 86 | 1973 | 103 *8179* | 1996 | 86 *8560* |
| 1939 | 133 *11000+* | 1974 | 80 *7192* | 1997 | 86 *8570* |
| 1941 | 160 | 1975 | 76 *6665* | 1998 | 91 *8965* |
| 1944 | 206 *16000 12-20* | 1977 | 87 *5000+* | 1999 | 118 *10820* |
| 1945 | 196 *15610* | 1978 | 100 *5325* | 2000 | 117 *10760* |
| 1958 | 94 *6231* | 1979 | 102 *6318* | 2001 | 161 *15300* |
| 1959 | 93 *6900* | 1980 | 110 *6612* | 2002 | 194 *21600* |
| 1960 | 102 *7430* | 1981 | 118 *9954* | 2003 | 227 *29720* |
| 1961 | 105 *11712* | 1982 | 119 *10100* | 2004 | 204 *26300* |
| 1962 | 110 *11949* | 1983 | 133 *11996* | 2005 | 204 *26600* |
| 1963 | 108 *8439* | 1984 | 112 *9200* | 2006 | 190 *24800* |
| 1964 | 108 *8068* | 1985 | 121 *10600* | 2007 | 204 *26350* |
| 1965 | 112 *7328* | 1986 | 120 *10750* | 2008 | 202 *27100* |
| 1966 | 116 *6875* | 1987 | 121 *10820* | | |

# Pentref Bechgyn Sain Tathan

Bu Gwersyll Bechgyn Sain Tathan yn ddyledus am ei eni i ŵr anghyffredin, anghyffredin yng Nghymru o leiaf, sef perchennog glofeydd dyngarol o'r enw, David Davies, yr Arglwydd Davies Llandinam wedi hynny. Ef oedd Cadeirydd cwmni glo mawreddog yr Ocean yn y dyddiau pan oedd glo'n frenin ar y byd. Ymestynnai ei deyrnas trwy ran helaeth o dde Cymru pan oedd y rhan hon o Ynysoedd Prydain yn bwerdy i oruchafiaeth ddiwydiannol y genedl. Dyma'r dyddiau pan ddaeth rhai dynion yn gefnog tra bod eraill yn parhau'n dlodion dan rym didrugaredd llafur. Yr unig ddewis i filoedd oedd wythnos waith chwe diwrnod a saith diwrnod o mewn blwyddyn.



Sain Tathan – y Gwersyll Cyntaf – 1925

Yn haf 1923 ymwelodd yr Arglwydd Davies â Gwersyll Dug Caeredin yn New Romney, swydd Gaint. Teithiodd yno er mwyn gweld criw o fechgyn ei gwmni ei hun, ar wyliau yng Nghaint dan ofal y Capten Glynn-Jones. Yn ôl yr hanes, dywedodd Davies fod "rhaid inni gael gwersyll fel hwn i'n bechgyn ni". Cadwodd ei air ac ni chafodd anghofio gan Glynn-Jones chwaith. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf roedd y ddau wedi gwasanaethu gyda'i Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig. Bu dau adroddiad arbennig ar ddewrder Glynn-Jones a dyfarnwyd yr MC iddo. Roedd Glynn-Jones yn ŵr o ddawn ddiamheuol, yn benderfynol ac yn meddu ar ewyllys gref - rhinweddau a oedd yn amlwg i bawb. Adwaenai Davies y rhinweddau hyn, a phan ddaeth y rhyfel i ben cyflogodd Glynn-Jones fel swyddog lles cwmni Ocean yn Nhreorci.

Aeth Glynn-Jones ati ar unwaith i gychwyn rhaglen lawn o ddarpariaethau lles yr oedd angen mawr amdanynt ar gyfer y glowyr tlawd, gan sefydlu Undeb Hamdden yr Ocean.
Gan ddilyn brwdfrydedd Davies dros brosiect gwersyll i fechgyn, drafftiwyd a chymeradwywyd cynllun i'r Undeb Hamdden roddi £5000 i'w lansio a pherswadiodd Glynn-Jones gyfarwyddwyr Ocean i wario £300 o'u harian eu hunain ar offer. Awgrymwyd darparu lleoedd cysgu, ystafell fwyta a chyfleusterau eraill ar gyfer gwyliau am wythnos y flwyddyn i 100 o fechgyn 12 i 18 oed. Byddai blaenoriaeth i fechgyn a oedd yn gweithio mewn glofeydd, neu a oedd yn feibion i lowyr. Byddai'r bechgyn eu hunain yn talu pymtheg swllt (75c) tuag at gost eu gwyliau.

Yn 1925 agorodd y gwersyll am bythefnos yn y lle cyntaf ond cafwyd bod angen llawer mwy o ran gwasanaethau er mwyn gwneud y gwersyll yn llwyddiant yn y tymor hir - sef cyflenwad dŵr a thoiledau ymhlith pethau eraill. Rhoddwyd £3500 eto o'r un gronfa yn 1926, ond bu newid enw cyn hynny. Dan reolau'r gronfa newidiwyd enw'r Pentref Bechgyn, fel y daethpwyd i'w adnabod wedi hynny, i "Gwersyll Glan Môr Pwyllgor Rhanbarth Cronfa Les y Glowyr". Lle digroeso oedd y byd yn y cyfnod hwn; ar y gorwel roedd ias y dirwasgiad a streic

*1960*
*Ailenwi Gwersyll Bechgyn Sain Tathan yn Bentref Bechgyn Sain Tathan.*

*1960*
*Y Gymdeithas yn newid ei henw i Gybiau Bechgyn Cymru.*

gyffredinol 1926. Am fod y cyfyngiadau mor llym, roedd yn amhosibl cael bechgyn i gymryd rhan yn y cynllun. Roedd pymtheg swllt yn graig o arian mewn cyfnod pan oedd ceginau cawl ar gorneli'r strydoedd. Bu llawer o siarad ac o ganlyniad, dros gyfnod o bedair blynedd o 1925, dyfarnodd y gronfa les grantiau i'r gwersyll gwerth £42,000.

Yn 1929 drafftiwyd Datganiad Ymddiriedaeth a agorodd y gwersyll i'r holl fechgyn yn y maes glo a gwnaeth yr Undeb Hamdden benderfyniad i ddyfarnu grant blynyddol tuag at weinyddu a chynnal a chadw bechgyn. Cytunwyd y dylai pob bachgen gyfrannu 2/6 yr wythnos fel ei gyfran ef o gostau'r wythnos.

Pan dorrodd yr Ail Ryfel Byd hawliwyd y gwersyll i ddibenion milwrol, ond flwyddyn wedi hynny fe'i rhyddhawyd i gael ei ddefnyddio fel gwersyll bechgyn eto. Oherwydd cyfyngiadau ar deithio a dogni bwyd, ac yn enwedig o gofio i wersyll cyfagos yr Awyrlu yn Sain Tathan gael ei fomio - yn wir, gollyngwyd bomiau o fewn ffiniau'r Pentref Bechgyn - bu'n amhosibl parhau yn ystod y rhyfel a chaewyd y gwersyll trwy'r cyfnod. Comisiynwyd y gwersyll wedi hynny gan yr Adran Ryfel fel gwersyll gorffwys i'r lluoedd a ddychwelai o Dunkirk. Fe'i defnyddiwyd wedi hynny i ddibenion milwrol hyd 1946.

Y symbyliad y tu ôl i holl ddatblygiadau pentref Bechgyn Sain Tathan oedd y Capten Glynn-Jones. Mae wedi creu lle parhaol iddo'i hun yn hanes y mudiad Clybiau Bechgyn. Mae ei enw wedi'i naddu ar gerrig milltir datblygiad y mudiad yng Nghymru, oherwydd ni chwaraeodd neb ran fwy allweddol. Dyfarnwyd OBE iddo yn 1928 i gydnabod ei wasanaethau i bobl ifanc, daeth yn aelod o'r Cyngor Ffitrwydd Cenedlaethol ac yn



*1926 – Gwersyll Bechgyn Sain Tathan – Yn y rhes gefn ar y chwith eithaf ceir Alby Nicholas BEM, gwirfoddolwr trwy ei oes yng Nghlwb Bechgyn Treorci a'r Pentref Bechgyn.*

fuan wedyn, yn ysgrifennydd amser llawn ar ei waith yng Nghymru. Yn 1939 fe'i penodwyd yn aelod o fwrdd Iechyd Cymru, swydd a ddaliodd am 14 blynedd. Trwy flynyddoedd yr Ail Ryfel Byd goruchwyliodd ambiwlansiau ysbytai, llochesi cyrchoedd awyr a gwasanaethau iechyd i filoedd o noddedigion. Yn 1954 dychwelodd i fyd gwaith ieuenctid pan dderbyniodd swydd ysgrifennydd amser llawn i'r mudiad Clybiau Bechgyn.

Nid oedd pall ar ei frwdfrydedd, roedd ei waith yn ysbrydoledig. Cysegrodd gyfanswm o 50 mlynedd o wasanaeth i'r mudiad clybiau bechgyn yn neilltuol. Dywedwyd nad oedd "unrhyw Gymro arall yn ein cyfnod ni wedi adnabod mwy o fechgyn, wedi gwybod mwy amdanynt neu wedi gwneud mwy i helpu bechgyn i'w helpu eu hunain".

*1962*
*Ailagor y Pentref Bechgyn gan y Frenhines Elizabeth, y Fam Frenhines.*

*1968*
*Ymweliad â'r Pentref Bechgyn gan Ddug Caeredin.*

# Pentref Bechgyn Sain Tathan




*Gwersyll Sain Tathan 1928 – Arwisgo'r Arglwydd Faer cyntaf.*



*1978 – Pentref Bechgyn Sain Tathan*

Yn ystod blynyddoedd llwm y dirwasgiad, byddai heidiau o fechgyn yn teithio o'u cartrefi yng ngwlad y glo i Sain Tathan i adeiladu capel y gwersyll a mwynhaodd tua 20,000 o bobl ifanc wyliau oddi cartref lle bu plant yn sefyll mewn ciw i gael cwpaned o goco a bara jam cyn cychwyn am yr ysgol a lle bu eu tadau heb ddim i'w wneud ond gobeithio y byddai gwaith ar gael eto maes o law.

Un o'r syniadau gwych a gyflwynwyd yn Sain Tathan oedd dewis hen löwr a'i wraig i fwrw gwyliau, yn rhad ac am ddim, fel Maer a Maeres y gwersyll, a oedd wedi dod yn un o sefydliadau anwylaf y maes glo.

Yn 1962 cafodd Clybiau Bechgyn Cymru brydles gyda Sefydliad Lles Cymdeithasol y Diwydiannau Glo a, gyda help grant gan y Llywodraeth, gwnaed gwaith atgyweirio gwerth. Edrychai Clybiau Bechgyn Cymru arno fel canolfan lle y gallai bechgyn ehangu eu gorwelion a newidiwyd yr enw i Bentref Bechgyn Sain Tathan

Ychydig a allai fynegi amcanion y pentref na Rheolwr y Gwersyll, Ivor Llewellyn BEM, a fuasai yn y gwersyll bron ers iddo agor. Dywedodd fod "y gwersyll yn ymgais i gynorthwyo pobl ifanc i gyd-fyw a chyd-ddysgu a helpu ei gilydd a rhai sy'n llai ffodus na nhw eu hunain a dysgu, trwy chwaraeon a gweithgareddau eraill,

hunanddisgyblaeth a chwarae teg". Bu Ivor, a'i wraig Dilys, yn flaenllaw yn Sain Tathan am hanner canrif bron gan ennyn hoffter unigryw ymhlith cenedlaethau o fechgyn Cymru. Wrth iddo gofio dyddiau'r dauddegau a'r tridegau dywedodd, "Roeddech chi'n gweld tlodi gwirioneddol yn y dyddiau hynny. Daeth llawer o'r bechgyn i'r gwersyll, nid yn gymaint oherwydd y cyfleoedd hamdden, ond i gael pryd iawn o fwyd. Nid oedd gan eraill y nesaf peth i ddim dillad nac esgidiau."

Ymwelwyd â'r gwersyll gan y Frenhines Elizabeth y Fam Frenhines ym mis Ebrill 1962.

Parhaodd y pentref i wasanaethu'r Mudiad a'i aelodau, yn ogystal â phartïon o sefydliadau dirifedi eraill ledled y DU ac Ewrop. Daeth y ganolfan yn adnabyddus hefyd am ddarparu cyrsiau gwerthfawr i brentisiaid a gyflogid gan ddiwydiannau mawr trwy Gymru gyfan.

Yn 1976 symudodd Clybiau Bechgyn Cymru ei bencadlys o'r Stryd Fawr, Caerdydd, i Sain Tathan, lle ymgartrefodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol, Clive Thomas (y dyfarnwr FIFA enwog) a'i staff gan weithio i arbed costau i'r mudiad.

Atgyweiriwyd a datblygwyd y gwersyll sawl gwaith nes i Glybiau Bechgyn Cymru ddirwyn i ben yn 1991.



*1962 – Ymweliad y Fam Frenhines â Phentref Bechgyn Sain Tathan – gyda Syr Maynard Jenour (Llywydd).*



*1966 – Trafodaeth ymhlith y staff yn y Pentref Bechgyn - Ivor Llewellyn (Warden y Gwersyll), George Stokes (Ysgrifennydd Cyffredinol), Clive Thomas (Ymgynghorydd Chwaraeon).*

*1976*
*Pencadlys CBC yn symud o'r Stryd Fawr yng Nghaerdydd i Bentref Bechgyn Sain Tathan.*

*1976*
*Ymweliad â'r Pentref Bechgyn gan Ddug Caerloyw.*

# Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored Abercraf

Safai Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored Abercraf mewn tua 11 erw o goetir hyfryd ar gyrion Bannau Brycheiniog wrth droed y Mynyddoedd Duon lle cynhelid gweithgareddau megis cyfeiriannu, merlota, ogofa a chanŵio. Bu'n ganolfan ddelfrydol hefyd i Wobr Dug Caeredin.

Defnyddid y Ganolfan gan nifer mawr o bobl ifanc o bob oed, yn cynrychioli trawstoriad o Ddiwydiant, Byd Masnach ac Asiantaethau Cymdeithasol. Byddai grwpiau'n treulio wythnosau, penwythnosau a diwrnodau yn y Ganolfan, gyda rhai'n gwersylla yn y cae, eraill yn defnyddio'r llety dan do.

Gweithiai'r Ganolfan ar batrwm hostel ieuenctid. Byddai partïon yn dod â'u bwyd eu hunain a'i goginio iddynt eu hunain, er y gellid trefnu ymlaen llaw i'r bwyd gael ei goginio gan gogydd, a'r parti'n gyfrifol am gost y bwyd ac am gyflog y cogydd. Bu'r trefniant hwn yn llwyddiannus iawn gydag ysgolion a sefydliadau diwydiannol.

Bu'r Ganolfan yn achos boddhad mawr i'r bobl ifanc a'i defnyddiai, a ddringai'r mynyddoedd ac a gwblhaodd y cwrs hyder, gan ddysgu bod yn hunanddibynnol, yn ymddiried yn eu barn eu hunain, yn dysgu defnyddio mapiau a chwmpawdau yn ogystal â mwynhau cwmnïaeth Abercraf. Bu'n fodd iddynt ehangu eu gorwelion ac i brofi gwefr cyflawniad hefyd.

Rhaid crybwyll enwau'r diweddar Keith Pepperell, Arthur Pinner a Trevor Lewis – Wardeiniaid hybarch y Ganolfan a gyfrannodd gymaint at ei llwyddiant.



*1979 – Ymweliad Tywysog Cymru â Chanolfan Awyr Agored Abercraf – gyda Syr Maynard Jenour (Llywydd).*



*Ymarfer Creu Timau yn Abercraf – 1985*


*1978*
*Agor Tŷ'r Capten Glynn-Jones yn y Pentref Bechgyn.*

*1979*
*Agor y Ganolfan Astudiaethau Maes yn Abercraf gan Dywysog Cymru.*

# Gwneud hanes

Cyflwynir yr adran hon o'r llyfr i'r bobl hynny sydd wedi chwarae rhan bwysig yn hanes y Mudiad. Darparwyd deunydd gaen gyn-aelodau o'r clwb, cyn-weithwyr a gwirfoddolwyr a gredai ei bod yn bwysig iddynt gyfrannu i'r llyfr.







# Cyn-swyddogion

## Syr Stanley Thomas OBE

Llywydd, CPI Cymru, 1991 – 2008



*1995 Ymweliad Brenhinol – Dug Caerloyw gyda Syr Stanley Thomas (Llywydd)*

Daeth Syr Stanley yn Llywydd y Mudiad pan gafodd ei ailstrwythuro fel Ffederasiwn Clybiau Bechgyn a Merched Cymru yn 1991. Deilliai ei ddiddordeb yn y Mudiad o'i flynyddoedd ffurfiannol fel aelod o YMCA Merthyr Tudful – a oedd ar y pryd yn aelod cyswllt o Glybiau Bechgyn Cymru – lle y datblygodd ei sgiliau fel pencampwr paffio tra oedd yn fachgen ysgol.

Trwy flynyddoedd o waith caled ac ymdrech, daeth Syr Stanley yn un o wŷr busnes blaenaf Cymru ac rydym yn ddiolchgar iddo am neilltuo amser i ddangos ei ddiddordeb mewn datblygu pobl ifanc yng Nghymru, yn enwedig y rhai sy'n byw yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig. Rhoddodd gefnogaeth fel Llywydd ymarferol ac amlwg, a chwaraeodd ran sylfaenol mewn sefydlu Her y Llywydd, pan gymerodd dros 300 o bobl ifanc ran, dair gwaith, mewn alldeithiau cerdded o gwmpas Cymru ac ar ei hyd, gan ennill sgiliau newydd a dysgu am amgylchedd, diwylliant a hanes Cymru.

Trwy'r 'Her Cerdded Cymru' aeth pobl ifanc ati i ddylunio a helpu i gynhyrchu set o baneli gwydr lliw ar gyfer Ysbyty Plant Cymru – un arall o hoff elusennau Syr Stanley.

Rhaid diolch yn ddiffuant i Syr Stanley am ei gefnogaeth ariannol ac ymarferol' ac am gefnogaeth ei gwmni, TBI, y bu'n Gadeirydd arno nes ei werthu yn 2003.

*1982*
*Adeiladu Bloc Cynadledda gyda 56 o ystafelloedd gwely yn y Pentref Bechgyn.*

*1984*
*Prynu'r Pentref Bechgyn gan Fudiad Lles Cymdeithasol y Diwydiannau.*

# Cyn-swyddogion

## Len Carroll MBE

Cadeirydd, CPI Cymru, 1991 – 2001




*1993 - Agor y Swyddfeydd newydd ym Mhont Elái, Caerdydd. Len Carroll MBE (Cadeirydd), Gareth Edwards, David Allen-Oliver (Prif Weithredwr)*

Ganed Len yn Aberbargoed yng Nghwm Rhymni yn 1920. Gwasanaethodd yn yr Awyrlu yn ystod y rhyfel ac wedi hynny bu'n chwarae pêl-droed yn broffesiynol i Luton.

Creodd gwmni peirianneg llwyddiannus – IPC Engineering – yn y 1960au a daeth yn Gadeirydd Clwb Pêl-droed Cynghrair Cymru, CPD Sili. Yn ystod y cyfnod hwn y datblygodd ei gyfeillgarwch gyda Clive Thomas, a oedd yn Ysgrifennydd Cyffredinol Clybiau Bechgyn Cymru a hefyd yn ddyfarnwr adnabyddus gyda FIFA, ac o'r cyfeillgarwch hwnnw y datblygodd ei ymwneud â Chlybiau Bechgyn Cymru.

Yn dilyn tranc Clybiau Bechgyn Cymru yn 1990 gwahoddwyd Len gan Syr Maynard Jenour a David Allen-Oliver i ddod yn Gadeirydd Mudiad newydd – sef Ffederasiwn Clybiau Bechgyn a Merched Cymru. Gwahoddodd ei ffrind, Stan Thomas, iddo yn Llywydd, swydd a ddaliodd hyd 2008. Un o uchafbwyntiau Len yn y swydd oedd ymweliad Dug Caerloyw â Chymru yn 1995 a derbyn MBE gan y Frenhines yn Buckingham Palace yn 1997.

Roedd gan Len frwdfrydedd heintus a adlewyrchid yn y safonau uchel a'r perfformiad a ddisgwyliai gan ei staff. Roedd yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd y gwirfoddolwyr sy'n cefnogi'r Mudiad a byddai'n gwneud pob ymdrech i roi gwybod iddynt pa mor werthfawrogol yr oedd o'u hymroddiad a'u hymdrechion. Byddai hefyd yn galw rhaw yn rhaw. Os oedd yn eich hoffi, purion; os nad oedd, doedd dim help. Byddai Len yn cyrraedd y pencadlys fel corwynt ar ddwy goes, yn llenwi pob man â'i bresenoldeb, yn dadlau ynghylch llenwi'r sieciau, cyn tynnu i bin ysgrifennu o'i boced yn dawel ddeng munud wedi hynny a llofnodi popeth yr oedd angen ei lofnodi! Roedd Len yn mwynhau bod yn dipyn o dderyn brith. Gallai fod yn frith iawn ond gallai ganu fel aderyn yn ôl y gofyn hefyd. Nid oedd unrhyw amheuaeth fod ansawdd aderyn ganddo – gallai fod yn ddigon pigog, ond roedd yn lliwgar ac roedd ganddo ddychymyg ehedog.

Yn anffodus, bu farw Len yn sydyn yn 2001. Cofir yn hir amdano oherwydd ei ymdrechion i 'ailgynnau'r tân'. Roedd ymroddiad Len i wella pethau i bobl ifanc Cymru'n ddigyfaddawd – roedd yn llafar ac yn uchelgeisiol dros Glybiau Bechgyn a Merched Cymru a gallai weld ei botensial. Byddai wedi ymfalchïo yn natblygiad CPI Cymru.

*1986*
*Ymweliad gan Ddug Caeredin â'r Pentref Bechgyn, a Chlybiau Bechgyn Georgetown, Troedyrhiw, Treharris, Nelson ac Ystrad Mynach.*

*1986*
*CBC yn cymryd rhan mewn gwaith gyda phobl ifanc ddi-waith.*

# Gwirfoddolwyr

## Eiron Dodd MBE

Rygbi



Bu'n fraint ac yn bleser cael bod yn gysylltiedig â Phanel Rygbi Clybiau Bechgyn Cymru er 1986 ac, ar ôl ugain mlynedd fel Cadeirydd, gwelais newid yn ei gyflwr. Yn 1986 teithiais i gêm brawf ym Mhenarth a chwrdd yno â David Allen-Oliver, Swyddog Gwasanaethau Maes y Clybiau, a ddaeth wedi hynny'n Brif Weithredwr y mudiad ar ei newydd wedd. 'Gwahoddwyd' fi gan David 'i gynorthwyo ac ychydig a wyddwn y byddwn yn bwyllgor bach ar fy mhen fy hun am y blynyddoedd wedi hynny wrth i David frwydro i gadw'r Mudiad i fynd – ac rydym yn ddiolchgar iawn iddo am hynny.

O dipyn i beth, dechreuodd rygbi adennill ei le yn y Clybiau Bechgyn a thrwy gymorth rhagorol gan bobl eraill mae wedi tyfu'n rhan lwyddiannus iawn o'r Mudiad. Ar un adeg, un gêm oedd ar yr amserlen; erbyn hyn mae'r rhaglen yn cynnwys gemau yn erbyn Ieuenctid Iwerddon, yr Alban, yr Iseldiroedd a Gwlad Belg a llawer o dimau eraill o Gymru a Lloegr.

Mae Rygbi Clybiau Bechgyn yn flaengar erioed, gyda golwg ar ddatblygu chwaraewyr ifanc. Ers iddo gael ei sefydlu mae wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc y tu hwnt i oedran ysgol i chwarae'r gêm, gan ddarparu ar y cychwyn ar gyfer 'llanciau yn y gwaith' neu gyn-fechgyn ysgol. Byddai chwaraeon Clybiau Bechgyn yn ffordd iach o fwynhau amser hamdden iddynt gan ennyn ymdeimlad o chwarae teg sy' rhan o ysbryd y Mudiad o'r dechrau.

Yn wir, nyni yw'r mudiad rygbi cynrychioliadol hynaf yn y byd ac ar un adeg ni oedd yn darparu'r unig rygbi strwythuredig i bobl ifanc yng Nghymru. Y gêm gyntaf y mae cofnod amdani oedd rownd derfynol Cwpan y timau Dan 18 oed yn 1949 rhwng Nantymoel a Threorci. Dychmygwch y chwarae dwys yn y gêm a enillodd Nantymoel o 3-0, a dynion ifanc y cymunedau glofaol cadarn hynny yn mynd i'r afael â'i gilydd.

Yn 1949 cafwyd y gêm ryngwladol olaf ar lefel Clybiau Bechgyn rhwng Cymru a Lloegr. Chwaraewyd y gêm yng Nghaerfyrddin, a Chymru oedd yn fuddugol o 41-3. Cynhaliwyd y gêm hon o flaen pob gêm ryngwladol arall ar lefel ieuenctid.

Yn 1949 sefydlwyd Undeb Rygbi Ieuenctid Cymru a gofynnwyd i Glybiau Bechgyn Cymru fod yn sylfaenydd, ac fel cynrychiolydd CBC y

*1987*
*Sefydlu Paneli Criced, Athletau a Rhedeg Traws Gwlad.*

*1988*
*Jiwbilî Ddiemwnt Clybiau Bechgyn Cymru.*

# Gwirfoddolwyr

bûm yn gwasanaethu am 18 mlynedd ar Bwyllgor Gwaith Ieuenctid Cymru, gan ddod yn Gadeirydd yn y pen draw. Yn 1988 sefydlwyd tîm cynrychioliadol Dan 16 oed a bu hwn yn llwyddiant mawr.

Mae llawer o'n chwaraewyr wedi mynd ymlaen i ennill capiau i'r tîm rhyngwladol, yn eu plith Dafydd James (Cymru a'r Llewod), Nathan Thomas, Morgan Stoddard, Richard Hibbard (Cymru) a Gavin Stacey (tîm 7 bob ochr Cymru). Alan Phillips (Cymru a'r Llewod) yw rheolwr tîm Cymru erbyn hyn.

I gloi, mae'n braf dweud bod y Mudiad ar ei ben-blwydd yn 80 wedi haeddu'r clod a gafodd dros y blynyddoedd. Rhaid talu teyrnged haeddiannol i'r arloeswyr cynnar hynny am eu rhagwelediad, eu brwdfrydedd a'u hymroddiad wrth gynnig cyfleoedd i chwarae rygbi a chwaraeon eraill i bobl ifanc Cymru ac rwy'n falch ac yn ostyngedig o fod wedi chwarae rhan mewn mudiad mor fawr.



*2001 – Casglu arian mewn bwcedi ym Mhorthladd Awyr Caerdydd gyda Neil Jenkins, chwaraewr rhyngwladol Pontypridd a Chymru.*

*1991*
*Ffurfio Ffederasiwn Grwpiau Bechgyn a Merched Cymru.*

*1992*
*Sefydlu'r Mudiad newydd fel elusen gofrestredig.*

# Gwirfoddolwyr

## Richard Bennett

Pêl-droed



Fe'm cyflwynwyd i Glybiau Bechgyn Cymru yn 1977 pan gychwynnais dîm pêl-droed ym mhentref Brithdir, y dref lle cefais fy ngeni. Ymunais wedi hynny â'r Mudiad yn Nwyrain Morgannwg am fod cyfle yno i'r tîm chwarae yn erbyn timau eraill ac i chwarae chwaraeon eraill.

Yn 1979 gofynnwyd imi ystyried dod yn ddewiswr rhanbarthol dros Ddwyrain Morgannwg fel y gallai bechgyn o'r ardal honno gystadlu a chynrychioli eu sir yng Nghwpan Clybiau Bechgyn Cymru a fyddai'n arwain at y treialon cenedlaethol yn Sain Tathan.

Yn 1981 fe'm gwahoddwyd i ddod yn ddewiswr cenedlaethol ochr yn ochr â chyn-ddewiswyr, Roy Priday, Clive Kinsey, Dave Beynon a Len Jones – swydd sydd gennyf o hyd.

Yn 1984, ac oherwydd prinder hyfforddwyr, ymunais â'r tîm rheoli gan ofalu am y tîm cenedlaethol Dan 16. Un o'r hyfforddwyr a weithiai i'r tîm cenedlaethol oedd Brian Clarke, cyn-chwaraewr i dîm Dinas Caerdydd. Cysylltodd y BBC â'r pencadlys i ofyn a fyddai modd ffilmio Brian a minnau'n cynnal sesiwn hyfforddi a'n cyfweld wedyn ar bêl-droed i bobl ifanc. Pan ddaeth y diwrnod parhaodd cyfweliad Brian am ddeng munud a'm cyfweliad innau am tua dau – rhyw fath o enwogrwydd, mae'n debyg!

Yn ystod y blynyddoedd hyn roedd y calendr pêl-droed yn brysur iawn gyda gemau yn erbyn YMCA, y Fyddin, a Chlybiau Pobl Ifanc yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Rydym yn falch o fod wedi gweithio gyda rhai chwaraewyr dawnus iawn, yr ymunodd sawl un ohonynt â chlybiau proffesiynol ac amatur o statws. Un chwaraewr sy'n dod i'r meddwl, a gafodd ei hyfforddi gen i ar y pryd, yw Gavin Williams, sy'n chwarae i Gymru ar hyn o bryd. Treuliodd Gavin gyfnodau gyda Henffordd, Yeovil ac Ipswich ac mae e gyda thîm Dinas Bryste ar hyn o bryd. Ymhlith y cyn-aelodau eraill o'r Clybiau Bechgyn a aeth ymlaen i chwarae dros Gymru ceir John Hartson (a ddechreuodd ei yrfa gyda Luton a mynd ymlaen wedyn i chwarae dros Arsenal, West Ham, Wimbledon, Coventry, Celtic a West Bromwich Albion), Clayton Blackmore (a ddechreuodd ei yrfa gyda Manchester United ac a chwaraeodd wedi hynny dros Middlesbrough, Barnsley, Notts County) a Colin Pascoe a dreuliodd gyfnodau gydag Abertawe, Sunderland a Blackpool. Aeth y chwaraewyr canlynol ymlaen i fod yn bêl-droedwyr proffesiynol - Kristian O'Leary (Abertawe), Michael Hughes (Abertawe), Brian Thomas (Henffordd), Huw Morgan (Abertawe), Darren Davies (Tottenham Hotspur, Morton). Enillodd Darren gapiau i Gymru hefyd ar lefel Dan 21 ond, yn anffodus, ni chefais y pleser o hyfforddi'r un o'r rhain.

*1992*
*Stanley Thomas yn dod yn Llywydd y Mudiad*

# Gwirfoddolwyr

Yn ystod y cyfnod hwn y des i ar draws Sgotyn gwybodus a chraff o'r enw Bill Donaldson (Cadeirydd Pêl-droed CPI yr Alban).Mae ei wybodaeth o bêl-droed a'r mudiad Clybiau Bechgyn yn ddi-ail. Daeth Bill a minnau'n ffrindiau mawr ac mae'r cyferillgarwh hwnnw'n para hyd heddiw.

Ar ôl sawl blynedd o hyfforddi'r tîm Dan 16, gofynnwyd imi ddod yn Gadeirydd yr Adran Bêl-droed. Roedd fy ngwybodaeth a'm profiad o bêl-droed yn baratoad da i'r swydd, er ei bod yn anodd imi gefnu ar hyfforddi gan fy mod yn mwynhau'r sialens.

Megis yn achos y rhan fwyaf o gyrff gwirfoddol, gall arall fod yn broblem. Digwyddodd hyn gyda phencampwriaeth y Pedair Gwlad rai blynyddoedd yn ôl pan oeddem yn methu chwarae ein twrnamaint arferol ar lefel Dan 16 oherwydd cyllid. Effeithiodd hyn ar sawl mudiad lle'r oeddem wedi chwarae yn y gorffennol ac, wrth gwrs, fe effeithiodd ar gynnydd chwaraewyr. Mae Twrnamaint y Pedair Gwlad bellach ar waith eto i bêl-droedwyr Dan 16. Rydym yn parhau mewn cysylltiad â'r Awyrlu a'r Llynges a'r gobaith yw medru cadarnhau gemau i'r tîm Dan 18. Rydym hefyd yn ceisio trefnu gêm i'r rhain Dan 14 yn erbyn Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon felly, gyda lwc, bydd pêl-droed ryngwladol i Glybiau Bechgyn cyn gryfed ag erioed eleni. Rydym yn ffodus hefyd fod gennym hyfforddwyr a rheolwyr sydd wedi treulio nifer o flynyddoedd gyda Chlybiau Bechgyn – Phil Robinson, Mark Robinson, Sean McCreesh, Ivor Bynon, Michael Holmes, Barry Jones, John Bird, Steve Jones a Doug Mallen – ac, oherwydd eu hymroddiad, eu gwybodaeth a'u sgiliau, rydym nid yn unig yn cystadlu â thimau cenedlaethol ond yn eu curo hefyd.

Agwedd arall ar yr ymrwymiad hwn gan unigolion yw'r treialon. Mae treialon yn gweithio'n rhwydd diolch i Ysgrifennydd y Panel Pêl-droed a'r cyn-ddyfarnwr FIFA, Alan Howells, ac mae'n amheus gen i a oes Prif Weithredwr eraill ar gael fel Joff Carroll sy'n helpu i ddewis y timau cenedlaethol. Rydym wedi cael ein canmol hefyd ar olwg smart ein chwaraewyr ar y cae ac yn gyffredinol, ac mae'r diolch hyn yn ddyledus i Steve Wood, ein rheolwr cit. Diolch yn fawr i holl aelodau'r Panel Pêl-droed.

Mae twrnamaint 5 bob ochr yn bod hefyd ar gyfer rhai 10 i 18 oed ond, oherwydd prinder gwirfoddolwyr ac amser, trefnir hwn gan y pencadlys. Mae ein cwpan fesul rownd yn dal i fod yn dwrnamaint poblogaidd ac fe'i rhedir yn gyfan gwbl gan ein Trysorydd, Peter Reynolds.

Mae'n bleser mawr imi weld yr ymrwymiad i'r mudiad gan arweinwyr, hyfforddwyr a staff y clybiau sy'n rhoi cefnogaeth inni o ddydd i ddydd. Hoffwn bwysleisio bod eu cefnogaeth a'u hymroddiad yn hollbwysig os yw'r mudiad i wneud cynnydd. Rwy'n dymuno pob llwyddiant i bawb yn y dyfodol.



*1969 – Stan Montgomery, Ymgynghorydd Chwaraeon, yn hyfforddi yn ystod penwythnos pêl-droed ym Mhentref Bechgyn Sain Tathan.*

*1993*
*Agor swyddfeydd y Pencadlys newydd yng Nghanolfan Busnes y Gorllewin, Trelái, Caerdydd.*

# Gwirfoddolwyr

## David Powe

Athletau






*1995 – Jamie Baulch yn ymweld â Phencampwriaethau Athletau Ffederasiwn Clybiau Bechgyn Cymru gan gario Ffagl y Gemau Olympaidd Iau.*

Yn dilyn Gemau'r Ymerodraeth Brydeinig yng Nghaerdydd yn 1958 penderfynais ymaelodi â chlwb athletau a oedd yn aelod cyswllt o Gymdeithas Clybiau Bechgyn Cymru. Hwn oedd fy nghyswllt cyntaf â Chlybiau Bechgyn a chymerais ran yn y Ras Traws Gwlad a'r Athletau ym Mharc Ynysyngharad ym Mhontypridd a Pharc Penydarren ym Merthyr Tudful (ar y trac milgwn), y Ras Ffordd o Ben-y-bont ar Ogwr i Gaerdydd. Cymerais ran hefyd yn yr Arddangosfa Celf a Chrefft yn Neuadd y Ddinas Caerdydd a fi oedd y bachgen cyntaf yn perthyn i Grŵp Sir Fynwy i ennill Gwobr Dug Caeredin Efydd, Arian ac Aur. Dyma rywbeth na fyddwn i ddim wedi'i wneud oni bai am y Clwb Bechgyn.

Yn ddiweddarach des i'n gynorthwyydd gwirfoddol yng Nghlwb y Bechgyn Trecelyn, gyda Mr Joe Davies, cyn symud i Bontymister. Wedi hynny des i'n ysgrifennydd Grŵp Gwent a Grŵp Caerdydd yn nes ymlaen. Gyda'm gwraig, Linda, aethom ati i redeg y Chwaraeon Dan Do, Pêl-droed 5 Bob Ochr, Pŵl, Snwcer a'r Prawf Canŵ 100 Milltir. Yn ogystal â'r Pencampwriaethau Athletau a Rhedeg Traws Gwlad, dros lawer blwyddyn lle des i i adnabod a dod yn ffrindiau gyda nifer o bobl yn lleol ac yn genedlaethol.

*1993*
*Y Mudiad yn newid ei enw i Ffederasiwn Clybiau Bechgyn a Merched Cymru.*

# Gwirfoddolwyr

## Moira Thomas
Pêl-droed Merched



Cychwynnodd Pêl-droed Ryngwladol i Ferched yng Nghlybiau Bechgyn a Merched Cymru yn 1999. Roedd tîm pêl-droed Dan 18 bechgyn CPI Cymru'n chwarae yn erbyn ysgolion Awstralia a gofynnais a fyddai modd trefnu tîm merched i chwarae yn erbyn merched Awstralia. Es i a chyn-hyfforddwraig, Christine Green, ati i recriwtio merched – aethom at Newport Strikers, CBM Castell-nedd a CBM Giants' Grave a llwyddo i gynnull sgwad, ei hyfforddi unwaith a chwarae'n syth wedyn. O gofio ein bod wedi cwrdd am y tro cyntaf y diwrnod cynt am sesiwn hyfforddi, gwnaethom yn dda, er inni golli o 4:0. Roedd y chwaraewraig ryngwladol lawn i Gymru, Michelle Green, yn ein tîm y noson honno.

Gofynnwyd inni chwarae yn Nhwrnamaint y Bowlen Rose yng Ngogledd Iwerddon a chwaraeir bob blwyddyn rhwng Gogledd Iwerddon a'r Alban. Aethom ati i recriwtio chwaraewyr a chynnal treialon a chasglu tîm ifanc iawn at ei gilydd. Ym mis Awst 2000 teithiasom i Iwerddon a chwarae'r Alban yn gyntaf a cholli o 3:0. Nid oeddem yn rhy siomedig gan mai honno oedd ein gêm gyntaf ar lefel ryngwladol. Ein gêm nesaf oedd Gogledd Iwerddon, ac enillasom o 2:1.

Ac yn awr, maw mlynedd yn ddiweddarach, rwy'n dal i fwynhau rhedeg Pêl-droed Merched yn y mudiad hwn ynghyd â thîm ymroddedig - fy ngŵr, Glyn, Christopher Rees, Richard Williams (Hyfforddwyr) a Sandra Williams (Rheolwraig Cit).

Yn 2006 enillodd CPI Cymru'r Bowlen Rose ar ôl blynyddoedd o ddod yn ail i naill ai Gogledd Iwerddon neu'r Alban. Y flwyddyn honno, cystadlodd Gweriniaeth Iwerddon ond daeth ei hymwneud i ben ar ôl dwy flynedd am resymau politicaidd. Ymunodd Lloegr â'r twrnamaint yn 2007, gan wneud y gystadleuaeth yn llawer cryfach. Yn 2008 daeth CPI Cymru'n gydradd gyntaf gyda Lloegr a'r Alban, gan golli ar wahaniaeth goliau.

Yn 2009 cynhwysai Carfan Tîm Pêl-droed Merched Cymru saith o ferchedsydd wedi cynrychioli CPI Cymru.



*Garfan Gynrychioliadol a Datblygu'r Merched 2008*

*1994*
*Cyflwyno Pêl-droed Merched.*

# Cyn-aelodau'r Clwb Bechgyn

## Lynn Davies CBE

Athletau



*'Lynn the Leap' – Enillydd Medal Aur y Naid Hir yng Ngemau Olympaidd 196.*

Fe chwaraeodd Clwb Bechgyn Nant-y-moel (yn y Neuadd Goffa), neu'r 'Mem' fel y bydden ni'n galw'r lle, ran fawr yn fy mywyd pan oeddwn i yn fy arddegau yn ôl y 1950au. Fe dreuliais i oriau hapus iawn yno gyda'm ffrindiau o Nant-y-moel a Pricetown.

Roedden ni i gyd yn hoffi chwaraeon, ac fe roddodd y 'Mem' lot o gyfleoedd inni i chwarae pêl-droed, pêl-fasged, tennis bwrdd, snwcer a sawl gêm arall.

Rwy'n cofio, tua 1958, ymweliad Frankie Vaughan, a oedd yn Llywydd y Clybiau Bechgyn ym Mhrydain, â'r 'Mem' a ninnau i gyd mewn rhes yn aros i gael ei lofnod. Ychydig a wyddwn i bryd hynny y byddwn i'n dod yn ôl o'r Gemau Olympaidd yn Tokyo chwe blynedd wedi hynny gyda medal aur a chael croeso hyfryd yn y 'Mem', a'r bobl yn sefyll mewn rhes yn aros i gael fy llofnod i!

Mae gen i atgofion melys am le cynnes, croesawgar lle'r oedden ni'n cael ei hannog i gymryd rhan a mwynhau cwmnïaeth y ffrindiau niferus a oedd gennym ni. Roedd yn wir yn gartref oddi cartref ac roedd Mr Cemys yn barod iawn ei groeso bob amser.

Wrth imi edrych yn ôl nawr, mae'n amlwg i'r 'Mem' ein helpu i ddatblygu hunanhyder hunan-barch ac mae'r pethau hyn wedi cyfrannu at fy ngyrfa dros y blynyddoedd.

Dros y blynyddoedd, mae Clybiau Bechgyn Cymru, y Clybiau Pobl Ifanc erbyn hyn, wedi gwneud cyfraniad aruthrol tuag at ddatblygiad personol ein pobl ifanc yng Nghymru. Rhaid diolch y cannoedd o staff a gwirfoddolwyr sy'n rhoi eu hamser i wneud clybiau i bobl ifanc mor llwyddiannus.

A chithau'n dathlu eich pen-blwydd yn 80, fe hoffwn i ddymuno Pen-blwydd Hapus iawn ichi a diolch ichi am roi cychwyn gwych mewn bywyd imi a llu o atgofion melys.

*1995*
*Ymweliad gan Ddug Caerloyw â chlybiau Baglan, Wyndham, Nelson a Radyr Ffrindiau Pobl Ifanc Anabl Abertawe.*

# Cyn-aelodau'r Clwb Bechgyn

## Joe Calzaghe
Paffiwr

Fe enillodd Joe Calzaghe Bencampwriaethau Paffio Dosbarth A y Gymdeithas Clybiau Bechgyn yng Ngwesty'r Hilton ym Mryste yn 1987. Ar ôl gyrfa ragorol mewn paffio fe ymddeolodd yn bencampwr proffesiynol diguro yn 2009. Mae'n adnabyddus trwy'r byd fel 'the Pride of Wales'. Joe oedd Pencampwr Pwysau Trwm Ysgafn Ring Magazine, yn Bencampwr Pwysau Canol WBO, WBA, WBC, IBF Ring Magazine a Phrydain. Yn 2007 Joe oedd Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn y BBC. Ystyrir Joe gan lawer fel y paffiwr mwyaf llwyddiannus erioed yn hanes Prydain.




*Llun trwy garedigrwydd Media Wales*

## Scott Gammer
Paffiwr

Scott, Pencampwr arall y Gymdeithas Clybiau Bechgyn, yn dwyn y llysenw 'The Hammer'. Yn 2006, yn dilyn 16 ymladdfa heb golli, curodd Mark Krence i ennill teitl Pwysau Trwm Prydain.



*Llun trwy garedigrwydd Media Wales*

*1995*
*Her y Llywydd – Taith Gerdded Ffordd Cambria.*

# Cyn-aelodau'r Clwb Bechgyn

## Nathan Cleverly

Paffiwr



Fe hoffwn i ddiolch ichi am roi'r cyfle imi gymryd rhan a chynrychioli CPI Cymru ym Mhencampwriaethau Paffio CPI y DU sawl blynedd yn ôl. Mae'r profiad a ges i trwy fod yn aelod o'r CPI wedi cyfrannu'n bendant at fy llwyddiant ar hyn o bryd ac wedi fy helpu i fynd ymlaen i ennill anrhydeddau pellach.

## Jon Alsop

Paffiwr



Cyfarchion ar ben-blwydd y mudiad yn 80 oed o Brisbane, Awstralia, lle rwy'n gweithio i gwmni Origin Energy fel Rheolwr Gweithrediadau dros Ddwyrain Awstralia, gyda chyfrifoldeb am reoli gweithrediadau ac am gynnal a chadw portffolio 1820MW o orsafoedd ynni nwy a ffatrïoedd cynhyrchu gwynt yn Queensland a New South Wales.

Fe fûm i'n aelod o Glwb Paffio Amatur y Rhws a des yn Bencampwr Paffio Clybiau Bechgyn Cymru yn 1978-80 (Dosbarth A, B & C), yn Bencampwr Prydeinig NABC yn 1980-81, yn bencampwr Iau 60kg Cymru yn 1980, yn Bencampwr pwysau ysgafn ABA Cymru yn 1982, yn gynrychiolydd Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad yn 1982, yn Bencampwr Pwysau Welter Ysgafn ABA Cymru a Phwysau Welter Ysgafn ABA Prydain yn 1986 a chynrychioli Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad unwaith eto yn 1986.

Rwy'n ddiolchgar i'r Mudiad Clybiau Bechgyn a Merched am gefnogi fy natblygiad yn ystod fy mlynyddoedd ffurfiannol.

*1996*
*Cynnal peilot Prosiect Gogledd Cymru.*

# Cyn-aelodau'r Clwb Bechgyn

## John Hartson

Pêl-droed (Luton, Arsenal, West Ham, Celtic, West Bromwich Albion, Cymru)



*Llun trwy garedigrwydd Media Wales*

Fe roddodd Clybiau Bechgyn a Merched Cymru fy nghyfle cyntaf imi gynrychioli fy ngwlad. Mae'n fudiad ffantastig, yn enwedig o ran rhoi cyfle i fechgyn a merched ddatblygu eu sgiliau mewn gwahanol gampau a chwarae yn erbyn gwledydd eraill.

## Alan Curtis

Pêl-droed



Roeddwn i'n ffodus ac yn lwcus iawn i fod yn rhan o bêl-droed broffesiynol am dros 35 o flynyddoedd. Yn ystod fy ngyrfa fe ges i chwarae i Abertawe (3 gwaith), Leeds United, Southampton, Stoke City a Chaerdydd. Rwy wedi hyfforddi Abertawe ar lefel ieuenctid, ar lefel y tîm cyntaf, fel Rheolwr Cynorthwyol, Rheolwr Dros Dro ac mewn amryw swyddi eraill. Rwy'n gweithio ar hyn o bryd fel hyfforddwr gyda thimau Dan 21, Dan 19 a Dan 17 Cymru yn ogystal â hyfforddi gyda thîm Abertawe.

Rwy'n ddyledus am lawer o'r llwyddiant a ges i i'r seiliau cadarn a ges yng Nghlwb Bechgyn Treorci. Fe dreuliais i chwe blynedd hapus iawn yn y clwb a mwynhau pob munud. Nid y bêl-droed oedd yr unig beth pwysig, ond yr holl ffrindiau da a wnes i yno sy'n dal yn ffrindiau da hyd heddiw. Trwy'r Clwb Bechgyn y des i i gysylltiad â'r diweddar ac annwyl Alby Nicholas a weithiai'n ddiflino am ddegawdau er cariad pur at y peth. Dyfarnwyd BEM i Alby am ei wasanaeth i'r clwb ac rwy'n cofio'i ymroddiad i Glwb Bechgyn Treorci yn annwyl iawn.

Mae gen i atgofion melys iawn o Glwb Bechgyn Treorci a'r Mudiad Clybiau Bechgyn a Merched yn gyffredinol. Llongyfarchiadau ar eich pen-blwydd yn 80 a gobeithio y bydd y mudiad n parhau i ffynnu er budd bechgyn a merched ym mhobman.

# Cyn-aelodau'r Clwb Bechgyn

## Clayton Blackmore
Pêl-droed



*Llun trwy garedigrwydd Media Wales*

Yn ei ddyddiau cynnar fel pêl-droediwr bu Clayton yn chwarae i Glwb Bechgyn Castell-nedd ac enillodd gap i Glybiau Bechgyn Cymru ar lefel Dan 14. Cafodd dreialon gyda Chlwb Rygbi Castell-nedd cyn mynd yn brentis i Manchester United, lle chwaraeodd dros 250 o weithiau. Aeth Clayton ymlaen i chwarae i Middlesborough, Bristol City (ar fenthyg), Barnsley a Notts County ac enillodd 39 o gapiau dros Gymru.

## Brian Flynn
Pêl-droed



*Llun trwy garedigrwydd Media Wales*

Cynrychiolodd Brian Glwb Bechgyn Castell-nedd ac Afan Lido yn ystod ei ddyddiau cynnar fel pêl-droediwr. Chwaraeodd 120 o weithiau i Burnley cyn ymuno â Leeds United yn 1977. Dychwelodd wedi hynny i Burnley cyn chwarae i Gaerdydd, Doncaster Rovers, Bury a Wrecsam. Bu'n rheolwr llwyddiannus ar Wrecsam ac Abertawe ac aeth ymlaen i fod yn rheolwr tîm Dan 21 Cymru.

## Mark Pembridge
Pêl-droed



*Llun trwy garedigrwydd Media Wales*

Cychwynnodd Mark ei yrfa ym myd pêl-droed yng Nghlwb Bechgyn Georgetown Clwb Bechgyn, a Chlwb Bechgyn Merthyr a Phenydarren. Treuliodd ei gyfnod gorau gydag Everton. Er iddo ddioddef yn gyson gan anaf i'w groth coes, chwaraeodd yno dros 100 o weithiau yn yr Uwch-gynghrair. Symudodd i Fulham yn 2003 a mynd yn Hyfforddwr i'r Academi. Chwaraeodd Mark dros Gymru 54 o weithiau.

# Cyn-aelodau'r Clwb Bechgyn

## Ryan Day

Snwcer



*Llun trwy garedigrwydd Media Wales*

Daeth Ryan yn ail yn Nhwrnamaint Snwcer y Shanghai Masters yn Tsieina yn 2007. Daeth yn ail yn Nhwrnamaint Agored Malta yn 2007. Yn 2008 cyrhaeddodd rownd derfynol y Grand Prix Snwcer a rownd go gynderfynol Pencampwriaethau'r Byd. Ef oedd rhif 6 yn rhengoedd chwaraewyr snwcer y byd yn 2009.

## Rhys Day

Pêl-droed



*Llun trwy garedigrwydd Media Wales*

Wedi cynrychioli Cymru ar bob lefel o lefel Dan 14 i fyny gyda Chlybiau Bechgyn a Bechgyn Ysgol Cymru cyn symud ymlaen i fod yn gapten ar dîm Cymru Dan 21. Enillodd gap llawn i Gymru yn America yn 2005. Gyrfa lwyddiannus mewn pêl-droed gyda Manchester City a Mansfield Town ac yn gapten ar Aldershot Town wrth iddynt adennill eu lle yn y Gynghrair. Ymunodd ag Oxford United yn 2009.

Rydyn ni'n llongyfarch Clybiau Pobl Ifanc Cymru ar 80 mlynedd o lwyddiant mewn gwaith ieuenctid. Fe ddaethon ni'n dau trwy rengoedd y clwb bechgyn yng Nghlwb Bechgyn a Merched Garw 33 ac rydyn ni wedi ennill cydnabyddiaeth ryngwladol yn ein chwaraeon ar lefel clybiau bechgyn cyn symud ymlaen i ddod yn chwaraewyr proffesiynol llawn. Yn ystod ein blynyddoedd ffurfiannol fe chwaraeodd Garw 33 ran enfawr yn ein datblygiad ac rydyn ni'n dau'n sylweddoli pwysigrwydd rôl y clwb ieuenctid sy'n rhan o'r gymuned.

*1996*
*Her y Llywydd – Taith Gerdded o Brestatyn i Barc yr Arfau.*

*1996*
*Ffurfio Cyngor Ieuenctid y Genhedlaeth Nesaf.*

# Cyn-aelodau'r Clwb Bechgyn

## Alan Lloyd MBE

### Atgofion a malu awyr gan gyn-flaenwr canol hen iawn




*Alan Lloyd – rhes flaen, ail ar y chwith*

Yn 1954 roeddwn i'n fachgen telegramau gyda'r Swyddfa Bost yn Abertawe, yn dal y trên o'r Mwmbwls am 4.40 bob bore. Fe fyddai'r trên yn cyrraedd Rutland Street am 4.58 – fel y cloc. Trwy redeg yn gyflym iawn roedd yn bosib cyrraedd y gwaith erbyn 5.00 yn union!

Y flwyddyn honno fe ymunais i â Chlwb Pêl-droed Mumbles Rangers, sef y clwb a ffurfiwyd gan y diweddar ac annwyl Billy Johns BEM. Fe alwyd yr holl fechgyn yn y clwb pêl-droed i gyfarfod mewn cwt pren ar lan y môr yn y Mwmbwls yn 1955, sef pencadlys Lleng Brydeinig y Mwmbwls. Fe anerchwyd y cyfarfod gan Mr Fisher Davies a oedd yn drefnydd Cangen Gorllewin Morgannwg o Gymdeithas Clybiau Bechgyn Cymru. Roedd yna gryn gyffro wrth inni ddod yn aelodau o'r mudiad ac fe ddaethpwyd i alw'r clwb yn Glwb Bechgyn Mumbles Rangers, enw a ddefnyddir gan y clwb hyd heddiw. Fel bechgyn ifanc, fe gawson ni ein cyflwyno i athletau, tennis bwrdd a llawer o gampau eraill (yn ogystal â chodi arian). Hwn oedd y tro cyntaf inni ddod yn gyfarwydd â digwyddiadau o'r fath.

Fel y rhan fwyaf o fechgyn yn fy nghenhedlaeth i, roeddwn i'n breuddwydio am chwarae pêl-droed yn broffesiynol ond doedd hynny ddim yn edrych yn debygol iawn pan gollais i fy lle yn nhîm Dan 18 y Rangers yn 1956. Fe ddes i i gêm un tro ond wnaeth y bachgen a oedd wedi cymryd fy lle ddim, felly fe chwaraeais i a sgorio dwy gôl. Roedd dewiswyr y Clybiau Bechgyn yn bresennol ac fe ges i fy newis i gynrychioli Grŵp Clybiau Bechgyn Gorllewin Morgannwg yn erbyn Ieuenctid Wolves - sef Pencampwyr Ieuenctid Lloegr. Fe sgoriais i bedair gôl wrth inni ennill o 4-1 ac fe ges i hwyl ar roi pnawn anodd dros ben i Laurie Wright (brawd Billy Wright). Oherwydd y perfformiad hwnnw fe ges i gap gan Glybiau Bechgyn Cymru yn erbyn yr Almaen ym Mai 1956. Fe es i ymlaen i chwarae dros Lanelli a Gloucester City yng Nghynghrair y De ac fe ges i dreialon gydag Aston Villa a Luton – ond doedd mam ddim yn meddwl fy mod i'n ddigon da!

Yn 1974 fe sefydlais Glwb Achub Bywyd Bae Langland a dod yn aelod cyswllt o Glwb Bechgyn a merched Cymru trwy Grŵp Abertawe. Rwy wedi gwasanaethu ers hynny fel Ysgrifennydd y Grŵp ac yn 2008 fe ddes i'n Is-gadeirydd CPI Cymru. Bu'n bleser cael ceisio talu ychydig yn ôl am gefnogaeth Grant Poiner a Joff Carroll i'r clwb i adeiladu ein canolfan newydd ac am y gefnogaeth a ges i hanner canrif ynghynt hefyd.

Pwynt fy stori grwydrol yw hyn. Fe fydd y Mudiad yn rhoi cyfle ichi bob amser. Fe ges i fy nghyfle a mwynhau pob munud. Mae degau o filoedd o bobl ifanc eraill wedi gweld gweddnewid eu bywydau gan y Mudiad hwn ond, yn anffodus, mae'n bosib na fydd eu hanesion byth yn cael gwrandawiad.

*1997*
*CPI Cymru'n croesawu pobl ifanc yn mynychu Fforwm Ieuenctid y Gymanwlad yng Nghaeredin.*

# Cyn-aelodau'r Clwb Bechgyn

## Max Boyce MBE
Difyrrwr



Mae'n bleser mawr cael llongyfarch Clybiau Bechgyn Cymru ar gyrraedd 80 mlynedd ers ei sefydlu.

Mae eu cyfraniad i gymdeithas ac i chwaraeon yng Nghymru wedi bod yn anferth ac fe welais i drosof fy hun, fel Llywydd yr adran Rygbi, pan mor amhrisiadwy yw ei gwaith dros y blynyddoedd.

Dyw pethau ddim bob amser yn hawdd ac maen nhw wedi wynebu anawsterau od maen nhw wedi cadw ffydd gyda'r delfrydau a'u huchelgais. Mae hynny'n glod iddyn nhw.

Unwaith eto, llongyfarchiadau waelod calon a boed ichi barhau i ysbrydoli pobl ifanc Cymru i wireddu eu gobeithion a'u breuddwydion am amser maith i ddod.

Max Boyce MBE, FRWCMD

## Owen Money MBE
Difyrrwr



Llongyfarchiadau ar Ben-blwydd y Clwb Bechgyn yn 80 oed. Mae'r Clwb Bechgyn yn bwysig ac mae e wedi bod yn bwysig i Gymru ac i mi'n bersonol.

Fe ddysgais i fy sgiliau fel pêl-droediwr yng Nghlwb Bechgyn Troedyrhiw ym Mwrdeistref Merthyr ac yng Nghlwb Bechgyn Treharris. Y peth mawr am y mudiad yw'r gefnogaeth y mae'n ei rhoi i bobl ifanc trwy ddod â'r holl gymuned at ei gilydd nid yn unig i chwarae gemau ond i gymryd rhan mewn diddordebau hamdden eraill.

Roedd fy mherfformiadau cynnar fel difyrrwr mewn dawnsfeydd yng Nghlwb Bechgyn Troedyrhiw ar nos Wener a heb y cychwyn hwnnw mae'n amheus gen i a fyddwn i wedi cael y llwyddiant a ges i fel comedïwr a diddanwr a darlledwr. Oes hir i fudiad y Clwb Bechgyn yng Nghymru – a phob hwyl yn y 80 mlynedd nesaf!

Owen Money MBE

# Aelodau'r Clybiau Heddiw

Mae ein haelodaeth heddiw'n cynnwys clybiau yng nghanol dinasoedd ac ar lan y môr yn ogystal â'r clybiau bechgyn mwy traddodiadol yn y cymoedd. Mae'r clybiau canlynol yn cynrychioli trawstoriad o'n haelodau heddiw.

## Clwb Pobl Ifanc Grangetown



*Pobl ifanc Grangetown yn gwisgo crysau cenedlaethol Cymru gyda balchder yn sgil profi llwyddiant mawr mewn athletau.*

Trwy feithrin cymeriad a hunan-barch pobl ifanc, mae Clwb Pobl Ifanc Grangetown yn cynnig rhywbeth amgenach na'r atyniadau llai dymunol sy'n wynebu pobl ifanc gan eu helpu i gyrraedd eu potensial trwy wneud ffrindiau a mwynhau bywyd yr un pryd. Mae ein dull gweithredu'n parhau i fod yn unigryw yn yr ystyr ein bod yn credu'n gryf mewn gweithgareddau – chwaraeon, celf ac anturiaethau awyr agored ayb – fel cyfrwng i fynd i'r afael â'r problemau sy'n wynebu pobl ifanc.

## Clwb Bechgyn a Merched Treharris



*Gwers Gitâr a Drymiau yng Nghlwb Treharris.*

Agorodd y Clwb Bechgyn cyntaf yn Nhreharris, yn ne Cymru yn 1923, ac mae wedi mynd o nerth i nerth. Yn draddodiadol, mae'r clwb hwn yn rhan annatod o'r gymuned ers dros bedwar ugain mlynedd ac mae'n parhau i gynnig gweithgareddau newydd a mwy traddodiadol i bobl ifanc dan ofal arweinydd y clwb, Lisa Bruford a'i thîm, gan barhau â gwaith aruthrol un o hoelion wyth enwocaf y Mudiad, Meirion Williams MBE. Adnewyddwyd y clwb yn ddiweddar am gost o dros £500,000 ac erbyn hyn mae'n cynnig profiadau preswyl, labordy cyfrifiaduron, ystafelloedd ar gyfer digwyddiadau arbennig ac fe'i defnyddir yn ystod y dydd gan sefydliadau lleol eraill.

# Aelodau'r Clybiau Heddiw

## Clwb Bechgyn a Merched Nant-y-moel



*Byron Lock gyda Thîm Pêl-droed buddugol cystadleuaeth 5 bob ochr 2002.*

Adnewyddwyd Nant-y-moel yn ddiweddar trwy gymorth Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo. Y clwb hwn yw un o'r rhai mwyaf cefnogol i raglen gweithgareddau genedlaethol CPI Cymru ac mae wedi creu pencampwyr cenedlaethol mewn chwaraeon da do megis tennis bwrdd, snwcer a pŵl. Mae Arweinydd y Clwb, Byron Lock, yn derbyn cefnogaeth dda gan dîm cryf o wirfoddolwyr gan gynnwys ei fam Enid sy'n gysylltiedig â'r clwb ers dros ddeugain mlynedd.

## Clwb Bechgyn a Merched Ystrad Mynach




Mae CBM Ystrad Mynach yn enghraifft arall o glwb sy wedi cael ei adnewyddu'n llwyr. Yn draddodiadol, mae'r clwb wedi chwarae rhan fawr mewn creu gweithgareddau i bobl ifanc yn yr ardal ers y 1930au. Mae Ken Pritchard, Tony Honeywill a'u tîm o wirfoddolwyr wedi gwneud cyfraniad o bwys tuag at lwyddiant y clwb ers blynyddoedd lawer a dyfarnwyd teitl 'Gwirfoddolwr y Flwyddyn gan CPI y DU i Ken Pritchard yn 2009.

*1997*
*Diwrnod Iechyd Da (ymgyrch hybu iechyd) yn Arena Ryngwladol Caerdydd.*

*1998*
*Y Mudiad yn newid ei enw i Glybiau Bechgyn a Merched Cymru.*

# Aelodau'r Clybiau Heddiw

## Clwb Bechgyn a Merched Georgetown



Lleolir Clwb Bechgyn a Merched Georgetown ym Merthyr Tudful ac fe'i hagorwyd yn 1966. Mae'r arweinydd presennol, Ray Davies, yn gysylltiedig â'r clwb er 1971 ac erbyn hyn mae'n derbyn pob cymorth gan Mandy Keating, a enillodd wobr 'Unsung Hero' gan y BBC yn ddiweddar. Y prif weithgareddau a ddarperir gan y clwb yw pêl-droed, pêl-rwyd, dawns a dawnsio stryd a defnyddir y clwb yn ystod y dydd hefyd gan grwpiau cymunedol eraill.

## Clwb Achub Bywyd Bae Langland




Mae gan Glwb Achub Bywyd Bae Langland y lleoliad mwyaf nodedig o bob clwb ieuenctid yn y wlad. Mae'n sefyll 50 metr o'r traeth ym Mae Langland ar arfordir Penrhyn Gwyr ger Abertawe. Cwblhawyd y clwb yn 2008, ar ôl wyth mlynedd bron o waith adeiladu, oherwydd prinder arian, ond mae'n sefyll yno erbyn hyn fel cyfleustra cwbl fodern i bobl ifanc. Mae'r clwb, sydd ag adnoddau labordy digidol, yn cynnig hyfforddiant mewn cymorth cyntaf, achub bywyd, gwarchod y glannau ac mae'n cystadlu ym Mhencampwriaeth Gwarchod Glannau'r DU. Mae aelodau Langland yn gefnogol iawn i raglen genedlaethol CPI Cymru ac maent wedi cynnal amryw o ddigwyddiadau i CPI Cymru. Mae'r Llywydd, Alan Lloyd MBE, yn gyn-aelod o dîm pêl-droed y Clybiau ac yn Is-gadeirydd ar CPI Cymru.

*1998*
*Gŵyl y Dyfodol.*

*1998*
*Her Ieuenctid y Ganrif Newydd.*

# Cyn-aelodau'r Staff

## Clive Thomas

1965 – 1977



*Llun trwy garedigrwydd Media Wales*

Yn ystod fy nghyfnod i yn y swydd fe gyflwynais nawdd. Doedd y gair 'nawdd' ddim wedi cael ei ddefnyddio yn y mudiad cyn hynny ac roeddwn i'n cysylltu â chwmnïau gyda golwg ar roi sylw iddyn nhw ar y teledu a'r radio ac yn y wasg. Un o'r cwmnïau cyntaf oedd Modern Buildings, a oedd yn eiddo i'r diwydiannwr, Alf Gooding, a oedd wedi bod yn llwyddiannus iawn yn adeiladu tai pren yng Nghanada ac a oedd wedi dod yn ôl i Gymru i barhau â'i waith adeiladu yn y wlad hon. Ymhlith y cwmnïau eraill roedd Wilkinson Sword ac IPC Engineering yr oedd Len Carroll yn Rheolwr Gyfarwyddwr arno. Daeth Len i amlygrwydd wedi hynny fel Cadeirydd Clybiau Bechgyn a Merched Cymru. Noddodd y cwmnïau hyn y tîm pêl-droed Dan 18 a chwaraeodd yn erbyn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon gartref ac oddi cartref. Er mwyn rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r gemau rhyngwladol fe fyddwn i bob amser yn ceisio'u chwarae ar gaeau yn y Gynghrair megis Parc Ninian, y Vetch, Parc Somerton a'r Cae Ras yn Wrecsam. Tebyg oedd yr hanes gyda rygbi, yn chwarae ar gaeau Aberafan, Llanelli a Chasnewydd.

Gyda'r Pwyllgor Chwaraeon fe drefnon ni ddigwyddiad ar Lun y Sulgwyn bob blwyddyn yn cynnwys cystadlaethau pêl-droed 5 bob ochr a phêl-fas i fechgyn dan 16 oed. Roedd hyn yn llwyddiant anferth gyda thros 1000 o bobl ifanc yn dod i lawr i Bentref Bechgyn Sain Tathan ar gyfer y twrnamaint. Roedd clybiau yn cynrychioli pob rhan o Gymru gyda bysiau'n llawn teuluoedd yn cael diwrnod braf yn Sain Tathan. Byddai gemau'n cychwyn am 10.30 yb a mynd ymlaen tan 7.30 yh. Roedd y diwrnod mor llwyddiannus fel y bu'n rhaid inni gyfyngu nifer y timau o bob clwb bechgyn. Wedi hynny fe gyflwynon ni'r Wythnos Wyliau Bechgyn Iau, sef wythnos ym mis Awst ar gyfer bechgyn rhwng 12 a 14 oed, yn cynnwys gwahanol gystadlaethau chwaraeon gyda 120 o fechgyn mewn 10 tîm. Byddai'r bechgyn yn cystadlu i ennill pwyntiau yn ystod yr wythnos ac yn byw yn y dorturiau. Heddiw, mae'r bechgyn hyn, sydd erbyn hyn yn ddynion, yn parhau i siarad am yr wythnosau hynny ac mae nifer wedi dod yn bêl-droedwyr da iawn ac wedi symud ymlaen i gael gyrfaoedd llwyddiannus yn y gêm.

Trwy gydol fy nghyfnod fel Ysgrifennydd Cyffredinol, fel y rhan fwyaf o fudiadau, cawsom drafferth i godi arian a byddai grantiau'n dod ar y pryd gan yr hen Swyddfa Gymreig. Un tro, roeddem ni'n hynod brin o arian ac roedd y Swyddfa Gymreig wedi egluro nad oedd am roi rhagor o grantiau felly gofynnais am gyfarfod gyda'r Gweinidog yn yr Adran Addysg a Gwyddoniaeth, a'i gael. Enw'r Gweinidog oedd Margaret Thatcher. Aeth fy Nghadeirydd (D E J Davies), fy Is-gadeirydd (Ralph Kendrick) a minnau i Lundain i gwrdd â Margaret Thatcher a'i swyddogion yn Curzon Street. Soniais am ein hapêl gyda'r Swyddfa Gymreig ac yn sgil cyfarfod maith penderfynodd y gweinidog yn erbyn unrhyw gynnydd gan ei bod yn teimlo y byddai hyn yn ffafrio'r Clybiau ar draul mudiadau eraill. Dywedais ar unwaith y byddwn yn ymddiswyddo fel Ysgrifennydd Cyffredinol yn y fan a'r lle a chynnal cynhadledd i'r wasg yng Nghaerdydd i esbonio safbwynt y Clybiau. Pan gyrhaeddais yn ôl roedd neges imi ffonio'r Gweinidog, a ddywedodd ei bod wedi ailystyried y penderfyniad ac y byddai'n rhoi'r grant y gofynnwyd amdano inni, ond i'n mudiad ni'n unig.

# Cyn-aelodau'r Staff



*1974 – Frankie Vaughan yn cwrdd ag aelodau ifanc y clybiau.*



*Stan Montgomery*

Roedd **Frankie Vaughan**, y diddanwr enwog, dan reolaeth Cymdeithas Genedlaethol y Clybiau Bechgyn oherwydd byddai'n neilltuo wythnos o'i amser prin iddi i deithio o gwmpas y wlad i godi arian ar gyfer Wythnos y Clybiau, ac roedd yn bosibl i Glybiau Bechgyn gysylltu ag ef yn uniongyrchol. Fe ddes i'n ffrindiau mawr gyda Frank ac fe benderfynodd y byddai hefyd yn neilltuo wythnos i Glybiau Bechgyn Cymru. Roedden ni'n codi symiau mawr o arian yn ystod Wythnos y Clybiau ac yn ystod y flwyddyn byddai'n perfformio'n broffesiynol mewn clybiau nos megis y Double Diamond, Tito's a'r Stardust Club, yng Nghaer-wysg. Yn ystod y cyfnodau hyn yng Nghymru byddai'n rhoi amser inni a byddwn i'n trefnu digwyddiadau mewn gwahanol glybiau bechgyn ledled Cymru i godi arian i'r Pencadlys ac i glybiau bechgyn unigol. Roedd Frank yn gaffaeliad mawr i'r mudiad ac fe gododd filoedd o bunnoedd, ac mae'r mudiad yn ddyledus iddo fe ac i'w deulu.

Fe weithiodd **Fisher Davies**, a ddaeth yn Swyddog Maes Hŷn i'r mudiad, yng ngorllewin Cymru'n bennaf ac roedd yn gefnogol iawn i Ganolfan Gweithgareddau Awyr Agored Abercraf, gan sicrhau llwyddiant llawer o'r cyrsiau hyfforddi i bobl ifanc gyda thîm ieuenctid y Fyddin. Roedd yn swyddog uchel ei barch trwy'r mudiad ac fe dreuliodd lawer o benwythnosau ar gyrsiau hyfforddi yn ol ym Mhentref y Bechgyn yn Sain Tathan.

Roedd **Stan Montgomery** yn gyn-chwaraewr pêl-droed proffesiynol a ddaeth yn chwaraewr nodedig gyda thim Dinas Caerdydd cyn iddo ymddeol i goleg yn Reading fel tirmon. Ymunodd â Chlybiau Bechgyn Cymru o Reading fel Ymgynghorydd Chwaraeon. Yn ystod ei gyfnod gyda'r Clybiau trefnodd yr holl chwaraeon gan gynnwys cyrsiau hyfforddi pêl-droed gyda Chymdeithas Hyfforddwyr Pêl-droed De Cymru a threialon rhyngwladol y Clybiau Bechgyn yn y Pentref Bechgyn. Ef hefyd oedd y prif Sgowt i Glwb Pêl-droed Bristol Rovers a denwyd sawl aelod ifanc o'r clybiau bechgyn i'r clwb ym Mryste. Un aelod oedd Wayne Jones o Dreorci a chwaraeodd sawl gwaith i dîm pêl-droed hŷn Cymru. Roedd Stan mewn cariad â phêl-droed ac fe gysegrodd lawer o'i amser i bobl ifanc.

**Achlysuron pwysig** – Yn 1968 daeth Dug Caeredin i Bentref Bechgyn Sain Tathan lle cyfarfu â nifer o bobl ifanc ac eraill a oedd wedi bod yn y mudiad ers llawer o flynyddoedd. Yn 1973 agorwyd Bloc Staff Ivor Llewellyn gan y pencampwr paffio byd-enwog, Jack Peterson. Yna, am resymau ariannol, ac er mwyn sicrhau bod gwell cydweithrediad rhwng y pencadlys a Phentref y Bechgyn yn Sain Tathan, symudodd Pencadlys y Clybiau Bechgyn o'r Stryd Fawr yng Nghaerdydd i Sain Tathan. Rwy'n dal i gredu mai hwn oedd un o'r symudiadau pwysicaf i'r mudiad oherwydd fe ddangosodd fod pawb yn gweithio gyda'i gilydd. Fe gawsom hefyd agor Clwb Bechgyn Ringland yn swyddogol gan Syr Maynard Jenour – sef prosiect a oedd ar y gweill ers blynyddoedd lawer.

# Cyn-aelodau'r Staff

**Gogledd Cymru**
Cawsom ni ein beirniadu'n gyson yng Ngogledd Cymru am alw'r mudiad yn Glybiau Bechgyn De Cymru, Clybiau Bechgyn Cymru, ac am beidio â chynnwys pobl ifanc o Ogledd Cymru. Roedd yn gwbl angenrheidiol inni sefydlu Grŵp Gogledd Cymru ac felly dyma benodi Barry Williams a ddaeth yn drefnydd rhan-amser y Clybiau Bechgyn yn y gogledd. Bu Barry'n ddylanwadol o ran sefydlu'r grŵp a sicrhau y byddai'n cael ei gynrychioli yn yr holl dreialon pêl-droed ym Mhentref Bechgyn Sain Tathan. Roedd yn wych gweld grŵp o Ogledd Cymru'n cymysgu gyda bechgyn y de yn ystod y penwythnosau treialon.

Daeth **Syr Maynard Jenour** yn Llywydd yn 1953. Roedd yn un o'r gwŷr busnes mwyaf ei barch yng Nghymru ac yn Gadeirydd ar Waith Sment Aberddawan a oedd, wrth lwc i Glybiau Bechgyn Cymru, heb fod ymhell o Bentref Bechgyn Sain Tathan. Roedd Syr Maynard yn Llywydd gweithgar ac fe fyddai bob amser yn cynrychioli'r mudiad mewn achlysuron ledled y wlad. Byddai'n mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith yn rheolaidd ac roedd bob amser yn awyddus i wybod sut roedd clybiau unigol yn dod ymlaen. Byddai warden y Pentref Bechgyn, Ivor Llewellyn, yn ffonio Syr Maynard i sôn am unrhyw waith angenrheidiol a byddai gweithiwr ar y safle i wneud popeth o fewn ychydig funudau. Roedd Ledi Jenour hefyd yn gefnogol dros ben a byddai'n mynychu achlysuron yn y Pentref Bechgyn. Yn ystod ei bum mlynedd ar hugain yn y swydd, y cyfnod hwyaf i unrhyw Lywydd, gwelodd Syr Maynard benodi saith ysgrifennydd Cyffredinol. Yn ystod y cyfnodau anodd, byddai bob amser yn gadarnhaol iawn ei agwedd a theimlai'n gryf fod angen am fudiad Clybiau Bechgyn. Roedd yn barod i lywyddu ar unrhyw achlysur i'r clybiau bechgyn allu codi arian. Wedi hynny sefydlodd ei Bwyllgor y Llywydd ei hun gan wahodd diwydianwyr amlwg o Gymru gan gynnwys yr Arglwydd Aberhonddu a'r chwaraewr rygbi, Billy Cleaver, a oedd yn Gyfarwyddwr y Bwrdd Glo Cenedlaethol. Cyfarfu'r pwyllgor hwn bedair gwaith y flwyddyn ond cododd filoedd ar filoedd o bunnoedd. Yn ogystal â sicrhau bod arian yn dod i'r mudiad yn ystod ei flynyddoedd yn y swydd, gadawodd gymynrodd bersonol i'r mudiad. Cofir amdano fel gŵr bonheddig balch a mawr ei barch yn y mudiad.

Pan ymunais â'r Clybiau Bechgyn roeddwn i'n ddyfarnwr pêl-droed ac fe gefais bwerau cyflawn gan y Pwyllgor Gwaith i barhau â'm gyrfa. Fe'm penodwyd wedi hynny i'r Gynghrair Pêl-droed ac wedi hynny i Banel FIFA, a bûm yn teithio ledled y byd, gan ddefnyddio fy nghysylltiadau amhrisiadwy ar ran y mudiad. Fe gwrddais â llawer o bêl-droedwyr a oedd yn gyn-aelodau o'r Clybiau Bechgyn, megis Terry Venables, Terry Medwin, Alan Curtis, Wayne Jones, Mel Hopkins, Brian Flynn, Leighton James a llawer un arall. Fe allwn i ddefnyddio fy nylanwad hefyd i sicrhau lleoliadau da i'n gemau rhyngwladol ar feysydd chwarae yn y Gynghrair Pêl-droed. Roeddwn i'n ddyfarnwr i'r NABC yn y Gwpan Gillette am bum mlynedd. Fe gydweithiais yn agos â'r Arglwydd Althorp a oedd yn Llywydd NABC, gan fynychu achlysuron fel Clive Thomas, y Dyfarnwr Rhyngwladol.



*Y cyn bêl-droediwr Cymreig rhyngwladol, John Charles, yn tynnu'r tocyn buddugol yn ein Tynfa Wythnosol yn 1967, yng nghwmni George Stokes, Ysgrifennydd Cyffredinol, a Clive Thomas, Ymgynghorydd Chwaraeon.*

# Cyn-aelodau'r Staff

## Struan James-Robertson

Swyddog Hyfforddi – 1967/1975

Yn dilyn ailgychwyn clwb ieuenctid rhan-amser lleol a minnau dros y 40 oed, penderfynais gychwyn gyrfa newydd mewn gwaith ieuenctid. Roeddwn i'n ddigon ffodus i wneud hynny dan gyfarwyddyd a gydag anogaeth George Stokes, un yr oedd ei brofiad a'i wybodaeth yn amhrisiadwy imi, fel prentis. I ddechrau, fe wnes i waith maes y diweddar Fisher Davies, gan wasanaethu clybiau yn y gorllewin ac yna fe ges i wahoddiad i ddod yn Gyfarwyddwr y cyrsiau Addasu i Ddiwydiant rhwng dydd Llun a dydd Gwener yn y Pentref Bechgyn, a osodwyd ar seiliau mor gadarn gan Clive Thomas.

Oherwydd newidiadau parhaus bu'n rhaid newid ac addasu o hyd dros y blynyddoedd a hefyd, roeddwn i am gwrdd â llawer o'r prentisiaid eto mewn amgylchedd gwahanol. Diolch i anogaeth y Comander Charles Thomson (Cadeirydd y Pwyllgor Hyfforddi) a dealltwriaeth Keith Pepperell (Warden Canolfan Abercraf), roeddwn i'n medru gwireddu fy mreuddwydion, a'r canlyniad oedd y penwythnosau Antur mewn Arweiniad. Parhaodd y rhain tan ar ôl fy nghyfnod i ac roedd i'n gallu eu defnyddio, wedi'u haddasu, am weddill fy ngyrfa. Roedden nhw hefyd yn ffynhonnell cyflenwad cyson o arweinwyr gwirfoddol ifanc a gwerthfawr ac roedd tri o Wardeiniaid Cynorthwyol y Ganolfan yn eu plith.

Pan ymadawodd George Stokes â'r Clybiau Bechgyn, gofynnwyd mi barhau â'r Wythnos Rotari flynyddol a oedd wedi cychwyn yn y Pentref Bechgyn, ac a noddwyd gan Glybiau Rotari De Cymru ar gyfer bechgyn dan anfantais yn eu hardaloedd. Roedd y gwaith hwn i gyd yn foddhaol iawn, ond mae un wythnos yn sefyll



*Aelodau'n cael hwyl ar y llyn yn ystod Penwythnos Antur yn Abercraf.*

allan yn neilltuol. Pan ofynnwyd inni yn 1972 a allem ni dderbyn hanner y bechgyn o Ogledd Iwerddon, o Londonderry yn bennaf, nid oedd unrhyw oedi cyn cytuno, am fod y cyfle'n un amhosibl ei wrthod.

Yn wreiddiol, roedd athrawon o Iwerddon wedi cytuno i weithredu fel arweinwyr, ond ar ôl 'Bloody Sunday' tynnodd pob un yn ôl a'r unig ddau a oedd ar gael oedd dyn mewn oed, a drefnodd gemau pêl-droed rhwng y gwahanol enwadau, a myfyriwr a oedd gartref o ysgoloriaeth chwaraeon mewn coleg yn America. O'r rhestr, yr unig arwydd o enwadau'r hanner cant o fechgyn o Iwerddon oedd enwau eu hysgolion. Fe rois i ychydig o bob un yn y chwe adran, ynghyd â chyfran o'r deugain o fechgyn o Gymru.

Ac eithrio dau oedolyn profiadol, fy nirprwy a thrysorydd yr arian poced, cynorthwywyr ifanc gwirfoddol oedd gweddill y staff. Cyrhaeddodd y bechgyn i gyd ar brynhawn dydd Sadwrn ac, ar fore Sul, cynhaliodd Canon Catholig a Ficer Protestannaidd wasanaeth eciwmenaidd yn y capel bychan cydenwadol a godwyd gan lowyr di-waith yn ystod y dirwasgiad.

# Cyn-aelodau'r Staff

Ar wahân i'r holl weithgareddau, chwaraeon a chystadlaethau yn y Pentref, treuliwyd un prynhawn yn Ynys y Barri lle'r oedd perchennog y parc adloniant wedi rhoddi swmp mawr o docynnau am ddim fel y gallai'r bechgyn fwynhau cael reid. Roedd yn rhaid i'r bechgyn o Iwerddon hedfan yn ôl ar y nos Wener ac fe aeth pob bachgen o Gymro i'r maes awyr i ganu'n iach iddynt. Wedi imi ddod yn ôl clywais fod un o'r bechgyn o Iwerddon wedi colli brawd yn yr helynt yno; mi wyddwn yn barod fod hynny'n wir am un o'r bechgyn Cymreig. Am un wythnos yn unig roeddem ni wedi byw gyda'n gilydd mewn cytgord perffaith – o na fyddai hynny'n wir i bawb trwy'r amser. I bob un ohonom, ni fyddai ond ychydig o wythnosau cystal yn ein bywydau.



*Struan James-Robertson gyda grŵp o bobl ifanc ym Mhentref Bechgyn Sain Tathan.*

*1998*
*Cystadleuaeth Ddoniau yng Nghanolfan y Berwyn, Nant-y-moel.*

# Cyn-aelodau'r Staff

## Barry Doughty

Swyddog Hyfforddi a Datblygu
1984/86



*1985 – Barry Doughty (rhes ganol, yr ail ar y dde) gydag aelodau'r cwrs Addasu i Ddiwydiant yn Sain Tathan*

Roedd fy nghysylltiad cyntaf i â Chlybiau Bechgyn Cymru yn 1973 pan oeddwn i'n siarsiant yn y Fyddin (Signalau Brenhinol). Fe ges i fy anfon i Farics Maindy yng Nghaerdydd fel aelod o Dîm Ieuenctid y Fyddin 70, un o bedwar tîm yng Nghymru. Roedd milwyr y Gwarchodlu Cymreig yn staff ar Dîm Ieuenctid y Fyddin 68 ac roedd eu pencadlys yng Nghanolfan Abercraf lle'r oedd Keith Pepperell yn Warden. Fe gydweithiai'r ddau dîm yn agos ar weithgareddau awyr agored gydag ysgolion a chlybiau ieuenctid a bechgyn trwy Gymru, yn Abercraf ac ym Mhentref Bechgyn Sain Tathan. Roedd y rhain yn lleoedd ardderchog ar gyfer profiadau preswyl am fod pwll nofio a llyn yn Abercraf ar gyfer gweithgareddau canŵio.

Fe'm penodwyd yn 1984 yn Swyddog Hyfforddi a Datblygu i Glybiau Bechgyn Cymru lle'r oeddwn i'n gyfrifol am ddatblygu rhaglen hyfforddi i'r mudiad yng Nghymru. Cyd-ddigwyddodd hyn â'r fenter i hybu'r Mudiad Maen Clo – sef cynllun Clybiau Bechgyn a Merched byd-eang a anogai bobl ifanc (hŷn) i gymryd rhan yn y mudiad. Cychwynnwyd y cynllun yn nechrau'r 80au gan Glybiau Bechgyn a Merched America. Roedd cyrsiau datblygu Maen Clo'n cynnwys elfennau ymarferol a phrofiad o seminarau a hyfforddiant preswyl yn ogystal â'r cyfle i gymryd rhan mewn digwyddiad rhyngwladol. Ym Medi 1984 roeddwn i'n brysur yn trefnu Cynhadledd Ffederasiwn Rhyngwladol Clybiau Ieuenctid y Maen Clo a fynychwyd gan 85 o gynadleddwyr o Gymru, yr Alban, Iwerddon, yr Almaen, Canada ac America. Ymwelodd y cynadleddwyr â llawer o'r Clybiau Bechgyn yng Nghaerdydd a'r Cymoedd.

Cynhaliwyd y Prawf Canŵ 100 Milltir blynyddol yn 1984 ac 1985 ar afonydd Wysg/Thame a Trent yn y drefn honno, ac er bod y nifer o Gymru'n fach y ddau dro, cafodd pawb a gymerodd ran amser gwych ac roedd yr ymdeimlad o fod wedi cyflawni rhywbeth yn fawr. Cymerais ran y ddau dro fel arweinydd ar y dŵr.

Yn 1984/85 atgyfodais y cyrsiau Addasu i Ddiwydiant a fuasai'n rhan o'r Clybiau Bechgyn yn y 70au. Yn ystod y flwyddyn honno cafwyd cyrsiau gyda thros hanner cant o brentisiaid a/neu weithwyr dan hyfforddiant o ryw ugain o gwmnïau yn ne Cymru.

Yn 1985 bu wythnos o wyliau yng Nghanolfan Gweithgareddau Awyr Agored Abercraf i ddeuddeg o bobl ifanc anabl, gyda chefnogaeth gan aelodau o fudiad y Maen Clo. Cynhwysai gweithgareddau'r wythnos wahanol ddigwyddiadau awyr agored a bu'r wythnos yn fodd i wneud pobl yn ymwybodol o'r angen am integreiddio pobl ifanc anabl yng nghlybiau'r mudiad. Llwyddodd y bobl ifanc, y staff a'r gwirfoddolwyr fel ei gilydd i wynebu sawl her bersonol wrth iddynt baratoi a darparu'r rhaglen.

*1999*
*Alldaith Ardeche.*

# Cyn-aelodau'r Staff

Yn ystod fy nghyfnod i gyda'r Clybiau Bechgyn cymerwyd rhan mewn cynlluniau cyfnewid dwyffordd gyda phobl ifanc o Wlad Belg, Iwerddon a'r Almaen. Roedd cynlluniau cyfnewid yn rhan bwysig o ddatblygiad mudiad y Maen Clo yng Nghymru ac fe groesawodd llawer o aelodau'r Clybiau Bechgyn y cyfle i fod yn rhan o amcanion y Cenhedloedd Unedig yn 1985, sef y Flwyddyn Ryngwladol Ieuenctid, gan annog pobl ifanc i gymryd rhan trwy themâu cyfranogiad, datblygiad a heddwch. Cymerodd llawer o aelodau'r Clybiau Bechgyn a chlybiau ran mewn cynnig llety i grwpiau o'r gwledydd yma, gan ymweld yn eu tro, a bydd eu profiadau'n fyw yn eu cof am weddill eu bywyd.

Digwyddodd y Prosiect Gogledd Affrica yn 1985 gyda 23 o bobl ifanc yn cymryd rhan, gan gynnwys un a oedd yn ddall trwy ei oes ac un a ddibynnai ar gadair olwyn. Daeth y bobl ifanc o wyth ardal yn ne Cymru a gweithiodd y Clybiau Bechgyn ar y cyd â mudiad Cristnogol, 'Horizons', o Lanelli. Teithiasom dros y tir i Foroco mewn tryc Bedford yn dyddio o 1952, trwy Wlad Belg, Ffrainc, Sbaen a Gibraltar. Roedd y grŵp oddi cartref am fis ac yn ystod eu cyfnod ym Moroco, buont yn gweithio am wythnos mewn Prosiect 'Cronfa Achub y Plant'. Dringasom Fynydd Tubkal ym Mynyddoedd yr Atlas, gan deithio rhan o'r ffordd ar gefn mul. Bu rhai'n canŵio ym Môr y Canoldir ac ym Môr Iwerydd gan ymweld â gwahanol leoedd diddorol ym Moroco a'r cyffiniau. Yn ogystal ag ymweld â'r lleoedd hyn, bu'n rhaid i'r grŵp ddygymod â dyletswyddau beunyddiol siopa, coginio a golchi llestri ac ystyried lles eu cyd-deithwyr.

Yn 1985, fel rhan o syniad i godi arian, cynhaliwyd prosiect 'Torri'n Rhydd' 24 awr. Gwisgai timau o dri neu bedwar o bobl fel carcharorion yn torri allan o garchar Caerdydd a'r enillwyr oedd y tîm a allai deithio cyn belled â phosibl mewn 24 awr, heb wario'u harian eu hunain. Cawsom gyhoeddusrwydd mawr i'r digwyddiad hwn ac fe aeth y bobl ifanc a gymerodd ran i bob man, gan gynnwys eithafion y Du, ac aeth ddau dîm cyn belled â Sbaen. Ni chynhaliwyd y digwyddiad y flwyddyn wedyn, ac roedd hyn yn siom oherwydd roedd y cyhoeddusrwydd yn y wasg ac ar y teledu'n ardderchog i'r Clybiau Bechgyn.

I gloi, roedd fy amser i gyda Chlybiau Bechgyn Cymru'n gyffrous a gwerthfawr. Gwnes lawer o ffrindiau, y mae llawer ohonynt yn dal hyd heddiw. Mae gwerthoedd ac egwyddorion y Clybiau Bechgyn a Merched yr un mor berthnasol yn yr oes hon ag oeddynt pan sefydlwyd y mudiad. Boed iddo barhau i ateb dyheadau'r bobl ifanc iddynt eu hunain a gobeithio y bydd modd datrys yr anawsterau arferol gyda chyllid hirdymor y mae pob mudiad elusennol yn eu dioddef, fel y gall y mudiad dyfu a datblygu mewn modd cynaliadwy.



*1985 - Torri allan o garchar i godi arian.*
*Tîm CBC - Jane Evans, Tim Martin, Debbie Lobb*

*1999*
*Agor swyddfa Gogledd Cymru.*

# Cyn-aelodau'r Staff

## Ian Loten

Swyddog Datblygu 1979 –1982



*Cyfarchion o Seland Newydd!*

Ymunais â Chlybiau Bechgyn Cymru yn 1979 yn dilyn cyfnod byr fel Swyddog Datblygu gyda Chlybiau Bechgyn Swydd Nottingham a Swydd Derby. Ariannwyd swydd gan y Swyddfa Gymreig i benodi Swyddog Datblygu i weithio yn y Pencadlys yn Sain Tathan. Pan oeddwn i'n fachgen fe es i i'm clwb bechgyn lleol ac roeddwn wrth fy modd yn cael cyfrannu rhywbeth ar ôl imi adael y brifysgol. Fy ngwaith ar y pryd oedd helpu i ddatblygu'r mudiad. Roedd gennym ni seiliau cadarn o ran chwaraeon traddodiadol, ond roedd angen canfod ffyrdd eraill o helpu pobl ifanc yn y gymuned. Roedd yn dda gen i gael gweithio hefyd gydag Alwyn Morgan y gwyddwn i amdano o Grŵp Clybiau Bechgyn Canolbarth Lloegr.

### Cyrsiau Preswyl yn Abercraf

Un maes lle bûm yn brysur iawn oedd cyrsiau meithrin cymeriad. Cynigiwyd y rhain i ddiwydiannau lleol megis Metal Box yng Nghastell-nedd lle defnyddiwyd gweithgareddau awyr agored i ystyried ffyrdd o herio prentisiaid yn feddyliol ac yn gorfforol. Cynhaliwyd y cyrsiau hyn yng Nghanolfan Gweithgareddau Awyr Agored Abercraf. Roedd yn lle delfrydol ar gyfer gweithgareddau heriol. Roedd ogofau carreg galch ffantastig i'w chwilio, canŵio, dringo, ymarferiadau cyfeiriannu liw nos, teithiau cerdded ar y bryniau a llawer iawn mwy i fod yn sialens i'r bobl ifanc. Fe ges i flas arbennig ar y sioe y byddai'r bechgyn yn ei llwyfannu ar ddiwedd y cwrs. Fel arfer, erbyn hyn roeddynt yn hunanhyderus iawn ac yn barod i berfformio o flaen pawb. Roedd y cyrsiau hyn yn enghraifft ragorol o bartneriaeth rhwng y gwasanaeth ieuenctid a diwydiant. Am fy mod i'n hoff o ddringo creigiau a chanŵio ac ogofa, fe fwynheais i bob cyfle i gymryd rhan yn y cyrsiau yma ac rwy'n credu bod y bobl ifanc a oedd yno wedi ennill llawer iawn trwy gael y profiad.

### Hyfforddiant i Aelodau Hŷn – Clwb Maen Clo

Y cam naturiol yn sgil y profiad a gawsom trwy'r cyrsiau preswyl oedd mynd ati i'w harfer gyda'n haelodau hŷn yn y clybiau. Nid oedd ond ychydig iawn o hyfforddiant ffurfiol i bobl ifanc a oedd am fynd ymlaen i helpu yn y clybiau wedi iddynt adael yr ysgol. Datblygwyd grŵp dan yr enw Clwb Maen Clo. Grŵp oedd hwn i bobl ifanc a oedd am roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned trwy helpu'r bobl iau yn eu clybiau. O ganlyniad aed ati i addasu rhai cyrsiau diwydiannol ar gyfer hyfforddiant mwy penodol mewn gwaith ieuenctid. Defnyddiwyd Abercraf a Sain Tathan a nifer o leoedd eraill i gynnal yr hyfforddiant hwn trwy'r rhanbarth. Daeth grŵp o bobl ifanc trwy hwn a mynd yn ôl i'w clybiau gyda gwell dealltwriaeth o'r priodoleddau angenrheidiol i arwain a chefnogi pobl eraill.

### Cyrsiau i Bobl Ifanc Anabl yn Abercraf

Rhoddwyd sialens fwy na'r disgwyl i'r bobl ifanc a oedd wedi dod atom trwy'r Clwb Maen Clo. Llwyddasom i gael arian trwy ddiwydiant a sefydliadau i redeg gwyliau i bobl ifanc anabl yn Abercraf. I wneud hwn yn brofiad gwirioneddol lwyddiannus roedd angen denu pobl ifanc abl i ymuno â'r cwrs. Felly parwyd bachgen abl gyda

bachgen anabl. Roedd hwn yn brofiad rhyfeddol i bawb. Roedd yn wych gweld yr ymddiriedolaeth a ddatblygodd rhwng y bechgyn yn ystod y cyrsiau preswyl. Ni chollodd y bechgyn anabl fawr o ddim. Addaswyd yr offer neu'r profiadau er eu mwyn. Nid oedd hyd yn oed ogofa'n amhosibl. Byddai Tîm Ogofa De Cymru'n helpu i lywio bechgyn trwy rai ogofau fel rhan o ymarfer achub bywydau. Chwaraeodd pawb ran mewn cynorthwyo'r bechgyn yma yn Abercraf, a'r cogyddion a'r cynorthwywyr yn y ganolfan yn amlwg yn eu plith.

Un flwyddyn roedd gennym fachgen a oedd yn ddibynnol ar gadair olwyn ac a oedd wedi cael benthyg cadair fodur am yr wythnos i symud o le i le. Wrth i'r wythnos fynd yn ei blaen, penderfynodd staff y ganolfan, wrth weld y rhyddid a gâi trwy'r gadair yma, godi arian i brynu un iddo. Tynnwyd arian o grwyn clybiau a thafarnau ar hyd Cwm Tawe ac erbyn diwedd yr wythnos roedd ganddo siec fawr tuag at gost prynu cadair fodur iddo'i hun. Roedd y cyrsiau hyn yn llwyddiant ysgubol i bawb ac yn enghraifft arall lle mae Clybiau Bechgyn Cymru wedi creu cyfle i bobl ifanc osod her iddynt eu hunain.

### Prawf Canŵ 100 Milltir

Her draddodiadol oedd hon a osodwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Clybiau Bechgyn. Roedd gofyn padlo can milltir mewn tri diwrnod fel rhan o dîm trefnedig. Trefnwyd y digwyddiadau yma ar afonydd megis afon Wysg, Hafren a Trent. Cymerodd timau o lawer o wahanol Gymdeithasau Clybiau Bechgyn ran yn yr her yma. Fel arfer, bu gogwydd arbennig arni yng Nghymru. Yn ogystal ag aelodau o'r Clybiau Bechgyn, cynigiodd Clybiau Bechgyn Cymru gyfle i fudiadau perthnasol yn ne Cymru gymryd rhan ochr yn ochr â'n haelodau ni. Er mawr syndod i ni, penderfynodd y Gwasanaeth Prawf y byddai'n syniad gwych i rai o'i droseddwyr ifanc. Her galed yw hon ar y gorau ond gyda dynion ifanc nad oeddynt yn wirfoddolwyr bu hyn yn sialens ychwanegol. Wrth lwc, gallem ofyn am help gan yr Adran Efrydiau Allanol yng Ngholeg Iwerydd. Gyda help Karen Wood (Mrs Loten wedi hynny) a'i chynorthwywyr yn y chweched dosbarth llwyddem i ddarparu tîm a fyddai'n anogaeth iddynt fentro. Oherwydd cymorth ar y tir gan bobl fel Alwyn Morgan a Tim Spinks, bu'n fenter lwyddiannus dros ben i bawb. Er gwaethaf swigod ar eu dwylo a chleisiau ar eu pennau ôl llwyddodd y tîm cyfan i gwblhau'r daith 100 milltir. Roedd gweld boddhad a balchder y dynion ifanc yma wrth iddynt gwblhau'r prawf yn ddigon o dâl i bawb a oedd wedi helpu ac efallai i'r bobl ifanc eu hunain ganfod rhyw nerth i fyw bywydau mwy cadarnhaol hefyd.

Roedd fy nghyfnod gyda Chlybiau Bechgyn Cymru'n werthfawr iawn i mi, ac fe'm hargyhoeddwyd i fwrw ymlaen gyda gyrfa yng nghwmni pobl ifanc. Felly fe es i ymlaen i Brifysgol Abertawe i dderbyn hyfforddiant fel athro. Mae ymroddiad a chefnogaeth y bobl a oedd yn gysylltiedig â Chlybiau Bechgyn Cymru'n ysbrydoliaeth imi gredu y gellir cyflawni unrhyw beth gyda phobl ifanc os yw'r agwedd meddwl yn bositif.



*Cymryd rhan yn y Prawf Canŵ 100 Milltir*

# Cyn-aelodau'r Staff

## Jim Davies

Y Rheolwr Olaf, Pentref Bechgyn Sain Tathan



Fy niweddar wraig Ann a minnau oedd Rheolwyr y Pentref Bechgyn am y pum mlynedd olaf. Buom yn byw mewn byngalo ar y safle ac roedd bywyd yn brysur dros ben am ein bod ar alwad bob awr o'r dydd a'r nos, ond mae'n wir dweud mai dyna oedd cyfnod hapusaf ein bywyd. Roeddem wrth ein bodd yn gweld y gwahanol bartïon, o bob oed ac o bob rhan o'r byd, a gwnaethom lawer o ffrindiau oes.

Gallai'r Pentref gynnig llety i dros 120 o breswylwyr ar unrhyw adeg ac un o'm hatgofion pennaf yw croesawu dros 100 o bobl ifanc o Gerddorfa Ieuenctid De Morgannwg yno i dreulio wythnos yn arfer eu sgiliau.

Erbyn diwedd yr wythnos byddent wedi cyrraedd safon uchel iawn ac roedd yn hyfryd clywed y gerddoriaeth brydferth yn llenwi'r gwersyll.

Roedd yr wythnosau i blant anabl a phlant dan anfantais yn gofiadwy iawn hefyd, a byddai'n wych eu gweld yn cael hwyl ar lawntiau'r gwersyll ac yn y pwll nofio. Uchafbwynt eu hwythnos oedd tripiau i'r ffair yn Ynys y Barri ac atyniadau lleol eraill megis yr Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan.

Diwrnod trist oedd diwrnod cau'r Pentref am y tro olaf ond mae'r atgofion am y miloedd o ymwelwyr â'r gwersyll dros y blynyddoedd yn fyw iawn o hyd.

*1999*
*Cynnal Twrnamaint Pêl-droed y Pedair Gwlad ym Merthyr Tudful.*

*2000*
*Gêm gyntaf tîm Pêl-droed Rhyngwladol y Merched yn erbyn Ysgolion Awstralia.*

# Cyn-aelodau'r Staff

## David Allen-Oliver

O Swyddog Gwasanaethau Maes Cynorthwyol i Brif Weithredwr
1984 – 1999



Dechreuais weithio gyda Chlybiau Bechgyn Cymru yn 1984 fel gweithiwr rhan-amser a chyrraedd swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau a Gweithgareddau Maes yn y pen draw.

Roedd yn amlwg erbyn 1990 fod Clybiau Bechgyn Cymru mewn sefyllfa ariannol enbydus ac nad oedd llawer y gallai'r Cyngor ei wneud i gadw'r Mudiad rhag dirywio.

Ar 2 Gorffennaf 1991 cytunodd Cyngor y Clybiau y gallwn geisio sefydlu mudiad arall, yn cynnwys y clybiau bechgyn a oedd yn gysylltiedig â CBC. Gyda help Len Carroll fel Cadeirydd, D I L Jones fel Trysorydd, Cymdeithas Genedlaethol y Clybiau Bechgyn (Llundain), Phil Carradice (Prifathro, Ysgol Headlands), Alan Higgins (Y Swyddfa Gymreig), Margaret Oliver (fy ngwraig), Shirley Higgins Swyddogion Maes y Grwpiau, sefydlwyd Ffederasiwn Clybiau Bechgyn a Merched Cymru. Rhoddodd fy ngwraig, Margaret Oliver, a fuasai'n gysylltiedig â'r Clybiau Bechgyn ers blynyddoedd lawer yn trefnu gemau dan do, rasys traws gwlad ac athletau, gymorth mawr i sefydlu'r Ffederasiwn hefyd.

Ar 15 Medi 1991 cytunwyd y cyfansoddiad drafft gan y Gymdeithas Genedlaethol a chytunwyd i sefydlu'r mudiad newydd.

Ar 4 Hydref 1991 cynhaliwyd cyfarfod yng Nghlwb Bechgyn y Betws lle ymunodd 84 o glybiau â'r mudiad newydd.


Ar 23 Chwefror 1992 cydnabu'r Comisiwn Elusennau'r mudiad newydd. Cychwynnodd y mudiad gyda rhodd o £150 gan y Cadeirydd a Mike Rogers (Grwp Abertawe).

Gyda grantiau gan y Clybiau Ieuenctid Cenedlaethol a'r Swyddfa Gymreig, gallai Ffederasiwn Clybiau Bechgyn a Merched Cymru fy mhenodi'n Brif Weithredwr ym mis Ionawr 1992 a Shirley Higgins yn Swyddog Gweinyddol ym mis Chwefror 1992.

# Cyn-aelodau'r Staff

## Dave Evans

1993 – 2008



Rhwng 1994 a 2008 cefais y fraint a'r anrhydedd fod yn Brif Weithredwr/ Ysgrifennydd Clybiau Pobl Ifanc Cymru am y cyfnod ail hwyaf yn hanes y mudiad, gan wasanaethu dau o'r Cadeiryddion uchaf eu parch yn hanes Sefydliadau Gwirfoddol Cenedlaethol yng Nghymru – sef y diweddar Mr Len Carroll MBE a Mr Cenydd Thomas MBE, QPM.

Athrawiaeth y Pwyllgor Gwaith oedd cynnig cyfleoedd a phrofiadau newydd i bobl ifanc i wella eu hyder a'u hunan-barch. Hoffwn egluro hyn trwy gofio nifer o ddigwyddiadau y bu'r Mudiad yn gysylltiedig â nhw yn ystod y cyfnod hwnnw.

- **1995** – Her Cambria – taith gerdded 274 o filltiroedd trwy'r rhannau uchaf, gwylltaf a phrydferthaf yng Nghymru, o Gonwy yn y gogledd i Gaerdydd. Cymerwyd rhan gan 60 o bobl ifanc.
- **1995** – Ymweliad â CPI Cymru gan Ddug Caerloyw i Abertawe.
- **1996** – Ffurfio'r Genhedlaeth Nesaf, sef cyngor ieuenctid y Mudiad, gyda 35 o bobl ifanc yn cymryd rhan.
- **1996** – Her y Llywydd - O Brestatyn i Aberhonddu ar droed, ac yna mewn canŵ i Gasnewydd, gan gasglu sbwriel yr holl ffordd – 80 o bobl ifanc yn cymryd rhan.
- **1996** – Prosiect Ieuenctid Gogledd Cymru – yn gwahodd pobl ifanc o ogledd Cymru a'u clybiau i ymuno â ni.
- **1997** – CPI Cymru'n croesawu pobl ifanc a oedd yn mynychu Fforwm Ieuenctid y Gymanwlad yng Nghaeredin.
- **1997** – Diwrnod Iechyd Da – 700 o bobl ifanc yn mynychu arddangosfa ar faterion iechyd yn y CIA yng Nghaerdydd – a drefnwyd ac a gynhaliwyd gan CPI Cymru.
- **1998** – Gŵyl y Dyfodol - gwahoddwyd CPI Cymru i drefnu chwaraeon fel rhan o'r gweithgareddau i bobl ifanc ar ddiwrnod agor Cynulliad Cymru yng Nghastell Caerdydd – cynrychiolwyd 35 o gampau.

*2000*
*Prosiect 'Body Shop'.*

*2003*
*Cynnal Twrnamaint Pêl-droed y Pedair Gwlad yng ngogledd Cymru.*

# Cyn-aelodau'r Staff

- **1998** – Her Ieuenctid y Ganrif Newydd – roedd CPI Cymru'n rhan o gonsortiwm o fudiadau ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru i gymryd rhan mewn cynllun £1M i gefnogi pobl 16-20 oed yng Nghymru.

- **1998** – Theatr Adad - perfformiad drama broffesiynol yn ymwneud â cham-drin cyffuriau ac alcohol – 300 o bobl yn bresennol.

- **1998** – Prosiect Cwch Camlas Arfaethedig – profiad amgylcheddol, diwylliannol a chreadigol arloesol a chyffrous a gynigiwyd i bobl ifanc yn sgil cael cwch camlas ar Gamlas Mynwy-Aberhonddu. Hwn oedd un o'r methiannau mwyaf siomedig yn ystod fy ngyrfa a dylid bod wedi caniatáu iddo ddatblygu.

- **1998** – Cystadleuaeth Doniau yng Nghanolfan y Berwyn, Nant-y-moel – digwyddiad hynod lwyddiannus yn cynnwys 20 o berfformwyr ifanc. Simon Cowell – fel hyn mae ei gwneud hi!

- **1999** – Alldaith Ardeche - grŵp o bobl ifanc yn padlo ar hyd Ceunant Ardeche yn Ne Ffrainc - 30 o bobl ifanc yn cymryd rhan.

- **2000** – Ffenestr ar Gymru – taith gerdded ar hyn cyrion Cymru – 850 o filltiroedd. Rhwng pawb. Cymerodd 100 o bobl ifanc ran. Trowyd delweddau o'r daith yn baneli gwydr lliw sydd yn Ysbyty'r Plant yng Nghaerdydd.

- **2000** – Prosiect 'Body Shop' – i gynhyrchu taflenni/posteri gwybodaeth i bobl ifanc gan bobl ifanc yn ymwneud â phob agwedd ar fyw'n iach.

- **2003** – Ymweliad gan Ddug Caerloyw ag Abertawe.

- **2004** – Cychwyn y Cynllun Cyfnewid Ieuenctid blynyddol â'r Almaen.

- **2007** – Enillodd CPI Cymru Wobr Buddsoddwyr mewn Pobl – sy'n cadarnhau bod yr holl bolisïau, systemau ariannol a rheoli'n gyfredol, yn berthnasol ac yn briodol.

Digwyddiadau eraill gwerth sôn amdanynt:

- Croesi Pont Hafren – cerddodd 100 o aelodau o Gas-gwent i Fryste dros y bont newydd cyn iddi gael ei hagor yn swyddogol.

- Encôr y Mileniwm – daliodd dros 1000 o bobl ifanc o Gymru ar y cyfle i gael tocyn i weld perfformiad proffesiynol mewn theatr yn unrhyw le yn y DU yn ogystal â chludiant am ddim ayb.

Yn fy marn i, mae dyfodol disglair o flaen CPI Cymru ac, fel arfer, mae'n wynebu ei gyfrifoldeb fel y mudiad ieuenctid gwirfoddol mwyaf yng Nghymru gyda'r un proffesiynoldeb a'r un ymroddiad i'w egwyddorion ag a ddangosodd ei sylfaenydd bedwar ugain mlynedd yn ôl.




*1995 - Taith Gerdded Ffordd Cambria – rhai aelodau o'r grŵpyn cyrraedd yn ôl ym Mharc yr Arfau*

*2003*
*Ymweliad gan Ddug Caerloyw*
*â Grŵp Abertawe.*

# Cyn-aelodau'r Staff

## Grant Davis

Swyddog Datblygu Chwaraeon Cenedlaethol 1998 – 2004



Ar ôl imi gwblhau fy ngradd mewn Chwaraeon a Symudiad Dynol yn Athrofa Caerdydd, bûm yn ddigon ffodus i gael cynnig swydd ran-amser fel Swyddog Chwaraeon CPI Cymru. Datblygodd hon yn fuan i fod yn swydd Swyddog Datblygu Chwaraeon Cenedlaethol lle bûm yn gyfrifol am ddatblygu rhaglen chwaraeon i'r mudiad yn ogystal ag ysgrifennu cynllun datblygu chwaraeon. Mae prosiectau cofiadwy'n cynnwys y Daith Gerdded o Gwmpas Cymru a'r daith mewn caiac i Ardeche.

Nod y prosiect yn Ardeche oedd hyfforddi rhai a oedd heb ddim profiad o hwylio caiac a'u hyfforddi i lefel i allu cystadlu mewn alldaith 7 diwrnod ar eu pennau eu hunain mewn caiac ar afon Ardeche yn Ne Ffrainc. Gallai'r bobl ifanc ennill achrediad am eu cyflawniadau ond rwy'n ymfalchïo mewn un peth: pan welaf aelodau o'r grŵp ddeng mlynedd yn ddiweddarach maent yn dal i gofio'r daith honno fel rhywbeth braf.

Taith gerdded 7 wythnos a 700 milltir o gwmpas ffiniau Cymru gyda phobl ifanc o bob rhan o'r wlad oedd y Daith Gerdded o Gwmpas Cymru, i ddathlu'r Mileniwm ac i gasglu atgofion a delweddau o Gymru. Prosiect anferth oedd hwn a gyda help Tîm Ieuenctid Byddin Cymru llwyddodd y bobl ifanc i gyrraedd nod a fuasai'n amhosibl fel arall.

Tra oeddwn i'n gyfrifol am y rhaglen chwaraeon genedlaethol bûm yn cysylltu â Chlybiau Pobl Ifanc y DU er mwyn sicrhau bod ein rhaglen chwaraeon yn cael ei hintegreiddio'n llawn â rhaglen chwaraeon y DU yn ogystal â chynnig help llaw gyda digwyddiadau yng ngweddill y DU megis yr Wythnos Ymgeiswyr, y Prawf Canŵ 100 Milltir a Thwrnamaint Pêl-droed y Pedair Gwlad ayb.

Fy atgofion mwyaf byw o'r Clybiau Bechgyn a Merched fydd gweithio dros fudiad sy'n gofalu am bobl ifanc, cwrdd â'r bobl fwyaf diffuant a diddorol, a gweithio gyda gwirfoddolwyr o gymoedd Cymru a ysgogid gan yr awydd i helpu pobl ifanc yn eu cymunedau. Fel Sais sy'n gweithio yng Nghymru, daeth staff y Pencadlys yn ail deulu imi gan fy nghynorthwyo trwy amserau caled ar brydiau ond gwerthfawr er hynny. Byddaf yn edrych yn ôl ar fy nghyfnod gyda'r Clybiau Bechgyn a Merched gan gofio amser braf a diolchaf i'r Mudiad am y cyfleoedd a gefais sydd wedi fy helpu yn fy ngyrfa wedi hynny fel Swyddog Addysg Gymunedol, fel Athro ac fel Gweithiwr Datblygu Cymunedol.



*1999 – Alldaith mewn Caiac ar hyd Afon Ardeche, Ffrainc*

# CPI Cymru Heddiw (2009) a'r Dyfodol







Mae Clybiau Pobl Ifanc Cymru'n hybu rôl clybiau ieuenctid gwirfoddol yn y gymuned ers dros 80 mlynedd. Trwy ein rhwydwaith o aelodau rydym yn cefnogi dros 27,000o bobl gan eu helpu i gael hwyl, dysgu, tyfu a gwneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymunedau. Credwn mewn helpu i ddatblygu potensial pob person ifanc a bod ein clybiau'n creu cyfle i wneud hynny.

Heddiw, mae Clybiau Pobl Ifanc Cymru'n cynnig rhaglen lawn ac amrywiol o weithgareddau addysgol, cymdeithasol, chwaraeon a diwylliannol i bobl ifanc ynghyd â rhaglen hyfforddi gynhwysfawr i arweinwyr, gwirfoddolwyr ac aelodau hŷn ac iau, gan ateb anghenion yr unigolyn, ac mewn partneriaeth â Choleg YMCA Cymru, Gwobr Dug Caeredin ac Arweinwyr Chwaraeon y DU. Mae'r rhaglen chwaraeon yn rhoi cyfleoedd i chwaraewyr yn y gymuned hyd at lefel ryngwladol ac mae'n cynnwys pêl-droed, rygbi, athletau, paffio, rhedeg traws gwlad, tennis bwrdd, snwcer a gweithgareddau awyr agored. Mae gan y Mudiad, sy'n gwasanaethu Cymru gyfan, bron 200 o glybiau'n aelodau gyda thros 27,000 o aelodau ifanc a gefnogir gan 2,400 o wirfoddolwyr hyfforddedig. Trwy ein partneriaeth â Chyngor Chwaraeon Cymru ein nod yw darparu rhagor o weithgareddau newydd a fydd yn hybu ffordd iach o fyw i bobl ifanc yng Nghymru.

Mae Cyngor Ieuenctid y Genhedlaeth Nesaf yn parhau i siarad dros bobl ifanc yn y Mudiad a dyna'r grŵp craidd o bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y Cynllun Cyfnewid Ieuenctid blynyddol gyda TSV Eltingenyn yr Almaen.

Mae'r Mudiad yn dal i weithio mewn partneriaeth â CPI y DU i ddarparu rhaglen fwy strwythuredig o weithgareddau mewn clybiau ar lefel genedlaethol.

Ffurfiwyd partneriaethau gyda mudiadau yn y sector preifat megis Connaught ac Academi Connaught sydd ag ymrwymiad i gyfrifoldeb cymdeithasol trwy'r ardaloedd hynny o Gymru lle maent yn weithgar. Bydd partneriaethau o'r fath yn cynnig cyfleoedd newydd a chyffrous o safbwynt hyfforddiant a chyfleoedd gwaith i bobl ifanc ac o ran cynnal Clybiau Pobl Ifanc Cymru yn y tymor hir.

Rydym yn wirioneddol ddiolchgar i Raglen Gwreiddiau Ifanc Ymddiriedolaeth Dreftadaeth y Loteri am ei chefnogaeth i gwblhau'r prosiect hanes hwn. Diolchwn hefyd i bawb, rhy niferus i'w henwi, sydd wedi cyfrannu at y prosiect hwn.

Mae taith y Mudiad dros y pedwar ugain mlynedd hyn wedi cael bendithion cyflawniad a llwyddiant yn ogystal ag ambell adfyd. Edrychwn ymlaen yn obeithiol at y pedwar ugain mlynedd nesaf ac at lwyddiant a datblygiad pellach y Mudiad nodedig hwn.

**Joff Carroll, Prif Weithredwr**

# CPI Cymru Heddiw (2009) a'r Dyfodol

## Joff Carroll

1998 – Presennol (2009)

(Prif Weithredwr o 2009)



Mae fy ymwneud i â'r Mudiad hwn yn dyddio'n ol i'r dyddiau pan oedd Clive Thomas yn Ysgrifennydd Cyffredinol – ychydig a wyddwn bryd hynny y byddwn i'n llenwi'r un swydd heddiw. Yng nghwrs un mlynedd ar ddeg yn gweithio i'r Mudiad bu'n bleser cael bod yn rhan o dîm y Pencadlys, gan gydweithio â phobl ymroddedig ac ymroddgar yn y swyddfa, ar bwyllgorau ac yn y clybiau.

Mae gweithio i Glybiau Pobl Ifanc Cymru wedi bod yn brofiad addysgol imi ynglyn â sut mae'r sector gwirfoddol yn goroesi'r frwydr barhaus i ddarparu gwasanaeth da ac effeithiol i gymunedau Cymru.

Er ein bod ni yn y Pencadlys yn wir ddiolchgar am gefnogaeth LICC, CWVYS, WCVA, Cyngor Chwaraeon Cymru a noddwyr rheolaidd megis y Loteri Fawr a Phlant Mewn Angen, mae ein clybiau a'n gwirfoddolwyr wedi cael trafferth trwy'r amser i ddygymod â chaledi economaidd. Fodd bynnag, mae'r gwirfoddolwyr rhyfeddol yma'n wynebu adfyd gyda nerth ac ymroddiad ac iddyn nhw y mae'r diolch bod y Mudiad yn parhau i ddarparu a datblygu gwasanaeth gwerth chweil i bobl ifanc Cymru.

*2003*
*Grŵp Abertawe'n ennill yn ennill Cwpan Bêl-droed Gillette - wedi'i chyflwyno gan Ddug Caerloyw.*

# CPI Cymru Heddiw (2009) a'r Dyfodol

## Shirley Higgins MBE

Swyddog Gweinyddol
1965 – Presennol (2009)



Mae'n anodd credu fy mod i'n gweithio i'r Mudiad ers 44 o flynyddoedd – sef dros hanner ei oes. Yn ystod y cyfnod hwn rwy wedi mwynhau gweithio gydag wyth o Ysgrifenyddion Cyffredinol/Cyfarwyddwyr Cenedlaethol/Prif Weithredwyr, Swyddogion Chwaraeon, Hyfforddiant, datblygu a Phrosiectau dirifedi, yn ogystal â'r Pentref Bechgyn, Abercraf a staff gweinyddol, yn gweithio yn swyddfeydd y Pencadlys yn 26 Stryd Fawr, Caerdydd, Pentref Bechgyn Sain Tathan, Ysgol Headlands, Penarth, a Chanolfan Busnes y Gorllewin, Caerdydd.

Mae llawer o'r bobl hyn wedi dod yn ffrindiau oes. Mae fy ngwaith yn ymwneud â phob agwedd ar redeg y Mudiad o safbwynt ariannol a gweinyddol. Mae'r gwaith bob amser yn ddiddorol am fod popeth yn newid o hyd gan ddibynnu ar y cyllid y byddwn yn ei dderbyn ar gyfer prosiectau, newidiadau i bolisi gwaith ieuenctid ayb.

Yn 1992 fe dderbyniais anrhydedd MBE am wasanaeth hir i Glybiau Bechgyn Cymru, ond y bobl sy'n gwir haeddu medalau yw'r gwirfoddolwyr ar ein Paneli Pêl-droed, Rygbi, Athletau a Phaffio sy'n gweithio'n ddiflino ers blynyddoedd maith i drefnu'r gwahanol chwaraeon – mae eu gwaith caled a'u hymroddiad yn destun rhyfeddol imi.
Rwy wedi mwyn hau gweithio gyda phob un.

A fyddwn i'n gwneud yr holl beth eto? Wrth gwrs y byddwn i!!

*2004*
*Cynllun Cyfnewid cyntaf gyda mudiad chwaraeon ieuenctid, TSV Eltingen, Stuttgart, yr Almaen.*

# CPI Cymru Heddiw (2009) a'r Dyfodol

## Grant Poiner

Cydlynydd Hyfforddiant a Datblygu Polisi, 1998 – Presennol (2009)



Dechreuais weithio i'r Mudiad ym Medi 1998, yn fuan ar ôl newid yr enw o Ffederasiwn Clybiau Bechgyn a Merched Cymru i Glybiau Bechgyn a Merched Cymru. Roeddwn i newydd orffen fy ngradd a gwelais hysbyseb yn y South Wales Evening Post am Swyddog Datblygu yn Abertawe am 20 awr yr wythnos. Ceisiais am y swydd ond yn anffodus des yn ail i Wendy Anderson, ond cefais gynnig swydd am bum awr yr wythnos! Wrth lwc, roedd rhagor o arian ar gael trwy gwmni Alcoa ac fe ddes i'n swyddog rhan-amser (20 awr), yn gweithio gyda Grŵp Abertawe o'r Clybiau Bechgyn a Merched a Chyngor Ieuenctid y Genhedlaeth Newydd. Roedd yn gyfnod cyffrous yn gweithio gyda'r Mudiad ochr yn ochr â dau berson tra brwdfrydig, sef Grant Davis a Wendy Anderson. Yn haf 2000 cwblhawyd y Daith Gerdded 'Ffenestr ar Gymru'. Roedd hon nid yn unig yn gamp fawr gan y bobl ond yn glod hefyd i'r arweinwyr a drefnodd y saith wythnos o wersylla, coginio, y llwybrau ac, wrth gwrs, y daith gerdded o 700 milltir.

Rwy wedi profi llawer o uchafbwyntiau yng nghwrs fy ngwaith i'r Mudiad gan gydweithio ag arweinwyr, gwirfoddolwyr a phobl ifanc ffantastig. Roedd gen i berthynas broffesiynol dda hefyd, pan oeddwn i'n gweithio ar y Gwobrau Arweinwyr Chwaraeon, gyda Cerys Young (Swyddog Prosiectau Hyfforddi) a adawodd CPI Cymru yn 2008 i ymuno â'r Heddlu. Mae gen i lawer o atgofion da, yn enwedig y Cynlluniau Cyfnewid Ieuenctid gyda TSV Eltingen a'r ffrindiau a wnaed gan bawb. Anrhydedd arall oedd cael trefnu'r ymweliad brenhinol ag Abertawe yn 2003 a chymryd rhan yn yr un flwyddyn pan enillodd clwb pêl-droed Grŵp Abertawe'r Gwpan Gillette am y tro cyntaf ers hanner cant a chwech o flynyddoedd. Mae gormod o bethau i sôn amdanynt mewn paragraff byr fel hwn ond cefais amser gwirioneddol wych gyda'r Mudiad a gobeithio y bydd hyn yn para yn y dyfodol.

*2006*
*Y Mudiad yn newid ei enw i Glybiau Pobl Ifanc Cymru.*

# CPI Cymru Heddiw (2009) a'r Dyfodol

## Jim Salisbury

Swyddog Datblygu Gogledd a Chanolbarth Cymru 2001 – Presennol (2009)



Rwyf yn fy swydd ers dros wyth mlynedd erbyn hyn ac rwy wedi gweld y mudiad yn tyfu o nerth i nerth, gan ddatblygu cysylltiadau â chyrff statudol a gwirfoddol lleol.

Mae fy swydd yn caniatáu imi ddatblygu sgiliau personol, addysgol a chymdeithasol i bobl ifanc trwy ein rhaglen eang o hyfforddiant a digwyddiadau, yn ogystal â rhoi boddhad, hyblygrwydd a hyder proffesiynol mawr imi. Trwy'r swydd hon rwy wedi cael darparu cyrsiau Gwobr mewn Arwain Chwaraeon i bobl ifanc, hyfforddiant Maen Clo i wirfoddolwyr a staff rhan-amser ac amser llawn, adnabod prosiectau penodol sy'n derbyn arian allanol a chynllunio a threfnu gweithgareddau rhanbarthol. Y cyflawniad mwyaf hyd yn hyn, yn fy marn i, yw dethol tri pherson ifanc o'r gogledd i gynrychioli tîm pêl-droed Dan 16 Cymru yn Nhwrnamaint Pêl-droed y Pedair Gwlad.

Fy hoff ddigwyddiad, mae'n siŵr, yw'r cynllun cyfnewid ieuenctid blynyddol gyda grŵp o'r Almaen. Rwyf i a'r bobl ifanc sydd wedi bod yn rhan o'r cynllun, wedi cael budd o'r profiadau ac mae gennym ni atgofion byw iawn.

Dros yr wyth mlynedd diwethaf, mae gwasanaethau pum awdurdod lleol wedi ymuno â'r mudiad, ynghyd â nifer o grwpiau gwirfoddol. Ar gyfartaledd, mae nifer y clybiau sy'n ymaelodi â grŵp gogledd Cymru bob blwyddyn yn fwy na 60. Trwy hyn rydym ni fel mudiad yn cynnig cefnogaeth, cyngor a chyfarwyddyd, yn ogystal ag annog pobl ifanc i ddilyn rhaglen digwyddiadau CPI Cymru a CPI y DU.

Braint ac anrhydedd yw cael bod yn rhan o fudiad ieuenctid yng Nghymru sy'n fawr ei barch ac sy'n dal i dyfu, lle mae pobl ifanc bob amser yn flaenoriaeth a lle mae rheolaeth dda ar staff.

*2007*
*CPI Cymru'n ennill y Wobr Buddsoddwyr mewn Pobl.*

# CPI Cymru Heddiw (2009) a'r Dyfodol

## Laura Davies

Swyddog Datblygu Gweithgareddau Awyr Agored, (Penodwyd 2009)



Swydd newydd imi yw bod Swyddog Datblygu Gweithgareddau Awyr Agored gyda CPI Cymru ond rwy'n gobeithio cael datblygu prosiectau cyffrous a llwyddiannus gyda'n clybiau a fydd yn annog mwy o bobl ifanc i fod yn fwy gweithgar yn yr awyr agored, ac yn amlach! Ariennir y swydd yn rhannol gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac fe'i cyflwynwyd yn sgil y strategaeth Dringo'n Uchel sy'n ceisio datblygu buddiannau iechyd, economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol trwy ymarfer corff. Fy mhrif nod yw hybu ac annog ffordd iach o fyw ymhlith aelodau ein clybiau trwy ddefnyddio'r hyn sydd ar garreg y drws.

Fe gefais flas ar fywyd awyr agored yn ferch ifanc fel aelod o Gorfflu Hyfforddiant yr Awyr. Fe gefais fy ysbrydoli gan fy mhrofiad fel Cadet Awyr i astudio Antur Awyr Agored yn y Brifysgol. Rwy'n mwynhau heicio, dringo a phadlo ac rwy wrth fy modd yn hwylio a syrffio ac rwy'n gwneud mor aml â phosibl. Fe garwn i allu rhoi'r profiadau a gefais i'n ferch ifanc i aelodau ein clybiau a'u dysgu i werthfawrogi ein cefn gwlad hyfryd.

Mae gen i nifer o ddigwyddiadau cyffrous ar y gweill a fydd, gobeithio, yn codi proffil yr awyr agored a gweithgareddau awyr agored, ac rwy'n byrlymu gan syniadau newydd i'w datblygu yn ein clybiau a fydd yn ddifyr a chynaliadwy.

*2008*
*Pen-blwydd y Mudiad yn 80 oed.*



2004 – y Cynllun Cyfnewid cyntaf gyda TSV Eltingen, Stuttgart, yr Almaen – yn cwrdd ag Arglwydd Faer Abertawe.



Hen lun yn dangos Ivor Llewellyn (ail res ar y chwith eithaf) – Warden Gwersyll Sain Tathan am 50 mlynedd.



1998 – Pencampwriaethau Athletau Ffederasiwn Clybiau Bechgyn Cymru yng Nghasnewydd – CB Pengam yn ennill y Gwpan.

cyp

clybiau i bobl ifanc - cymru
clubs for young people wales

heritage
treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI



1965 – Y Capten J Glynn-Jones OBE, MC



2000 – Prosiect Ffenestr ar Gymru – cyflwyno'r Wobr Ragoriaeth mewn Gwaith Ieuenctid.